

**Adolygiad Deng Mlynedd o'r trefniadau ar  
gyfer Panel Annibynnol Cymru ar  
Gydnabyddiaeth Ariannol**

**Stephen Hughes**

# Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad
Pennod 2	Dadansoddiad o system Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU.
Pennod 3	Adolygiad o Amcanion a'u cyflawniad
Pennod 4	Llunio strategaeth a chyfathrebu
Pennod 5	Adolygiad o Gwmpas y Panel
Pennod 6	Perthynas â Rhanddeiliaid a'u barn am y Panel
Pennod 7	Adnoddau a ffyrdd o weithio
Pennod 8	Ymgysylltu â'r cyhoedd
Pennod 9	Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion
Atodiad A	Cylch Gorchwyl yr Adolygiad
Atodiad B	Rhestr o Gyfweliadau a chyfarfodydd a arsylwyd
Atodiad C	Tabl o elfennau'r Cynllun ar draws gwahanol wledydd yn y DU.
Atodiad D	Data a ddefnyddir er mwyn Dadansoddi

# Pennod 1 Cyflwyniad

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ar ei ffurf bresennol yn 2011 trwy Ran 8 (a141 i a160) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur). Ei ddiben oedd pennu taliadau i Gynghorwyr a deiliaid swyddi cyhoeddus cysylltiedig mewn modd sy'n annibynnol ar ymyrraeth wleidyddol, trwy brosesau agored sy'n rhoi sail resymegol dryloyw ac sy'n arwain at ganlyniadau teg i dderbynwyr y taliadau ac i dalwyr y dreth gyngor a'u hariannodd nhw.

Ar hyn o bryd, mae'r Panel yn pennu cyflog sylfaenol ar gyfer pob Cynghorydd yn y 22 Brif Awdurdod Lleol a'r 734 Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru, yn ogystal â chynlluniau taliadau ychwanegol ar gyfer Cynghorwyr sy'n dal swyddi uwch yn y Cynghorau hynny. Mae hefyd yn pennu taliadau tebyg ar gyfer Aelodau y 3 Awdurdod Tân ac Achub a'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae ganddo rywfaint o gyfrifoldeb dros gymeradwyo cyflog Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Weithredwr) y Prif Gynghorau mewn rhai amgylchiadau. Mae ganddo ddyletswyddau a phwerau cysylltiedig ynghylch cyhoeddi gwybodaeth gan Gynghorau ac Awdurdodau. Gellir gweld Rheoliadau sy'n Bodoli ym [Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2011 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk).

## Yr Adolygiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r adolygiad 10 mlynedd hwn o Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Gellir gweld Cylch Gwaith yr adolygiad yn Atodiad A. Gofynnir i'r adolygydd ystyried holl swyddogaethau ... y panel gyda'r bwriad o ystyried 10 cwestiwn eang y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- 1 Profi pa mor dda y mae wedi cyflawni ei amcanion
- 2 Adolygu sut mae'r Panel yn cyfleu ei benderfyniadau
- 3 Deall ei berthynas â rhanddeiliaid allweddol
- 4 Archwilio pa mor dda y mae'r Panel yn gweithio
- 5 Ystyried sut mae'n ymgysylltu â'r Cyhoedd

## Methodoleg

Cafwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad trwy gyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol. Mae Atodiad B yn nodi'r cyfweiliadau a gynhaliwyd. Rwyf yn hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y cyfweiliadau hynny am eu hamser gwerthfawr a'u safbwyntiau gonest. Gwelais hefyd y Panel yn gweithio ar sawl achlysur, a restrir hefyd yn Atodiad B. Gwahoddais rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig pe na fyddant yn gallu bod yn bresennol yn unrhyw un o'r cyfarfodydd a drefnwyd.

Yn ogystal â chyfweiliadau ac arsylwadau wyneb yn wyneb, cynhaliais rywfaint o ymchwil bwrdd gwaith hefyd, o amgylch systemau cymharol mewn manau eraill yn y DU yn enwedig, ac rwyf wedi defnyddio ymchwil arall ynglŷn â sut mae Cynghorwyr yn mynd ati i wneud eu gwaith a materion cysylltiedig.

Nodaf y ffynonellau yr wyf wedi eu defnyddio trwy gydol yr adroddiad hwn. Mae rhai o'r bobl a gyfwelwyd wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol i mi hefyd, ac rwyf wedi defnyddio hyn i ategu'r dystiolaeth a gasglwyd trwy gyfweiliad.

Cyn cwblhau'r adroddiad, rhannais ganfyddiadau cynnar ac argymhellion tebygol â rhai o'r rhanddeiliaid allweddol fel proses ymgynghori anffurfiol. Nid yw'r amser a ganiatawyd ar gyfer yr adolygiad hwn wedi caniatáu proses ymgynghori fwy eang. Yn y pen draw, fy nghyfrifoldeb i yw'r canfyddiadau a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn. Mater i Lywodraeth Cymru, wrth gwrs, fydd penderfynu sut y mae'n dymuno ymdrin â'r canfyddiadau a'r argymhellion hyn, gan gynnwys pa ymgynghoriad ychwanegol y mae'n dymuno ei gynnal.

## Strwythur yr adroddiad

Ar ôl y bennod agoriadol hon, mae gan yr adroddiad wyth pennod arall a nifer o atodiadau sy'n ymdrin â'r pynciau eang canlynol:

Pennod 2	Dadansoddiad o system Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU.
Pennod 3	Adolygiad o Amcanion a'u cyflawniad
Pennod 4	Llunio strategaeth a chyfathrebu
Pennod 5	Adolygiad o Gwmpas y Panel
Pennod 6	Perthynas â Rhanddeiliaid a'u barn am y Panel
Pennod 7	Adnoddau a ffyrdd o weithio
Pennod 8	Ymgysylltu â'r cyhoedd
Pennod 9	Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion

Mae'r atodiadau yn darparu gwybodaeth gefndir sy'n cefnogi sylwedd yr adolygiad.

## Canfyddiadau ac Argymhellion

Ceir saith argymhelliad yn yr adroddiad, a nodir yn yr adrannau y maent yn gymwys iddynt ac a ddygir ynghyd ym Mhennod 9. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y newidiadau strategol y dylai'r Adran a Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu gwneud.

I grynhoi, mae'r argymhellion yn awgrymu bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn adeiladu naratif strategol yn seiliedig ar fodlau gwerth Cyngorwyr a fforddiadwyedd a danategir gan dystiolaeth ymchwil. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn newid y ffordd y mae'n cyfleu ei benderfyniadau i'w haddasu ar gyfer gwahanol rhanddeiliaid. Mae angen iddo ddatblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd. I helpu i ddarparu'r adnoddau ar gyfer rheoli'r gwaith hwn, awgrymir bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei gynnal gan gorff hyd braich y mae ganddo synergeddau â llywodraeth leol a all ddarparu cymorth polisi, technegol a chyfreithiol sydd ar goll, ac sy'n cynnal adolygiad o effeithiolrwydd er mwyn ailwrpasu'r gyllideb a ffyrdd o weithio er mwyn cynyddu capasiti y Panel. Awgrymir newidiadau bach i'r cwmpas.

Yn ogystal â'r argymhellion cyffredinol hynny, mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau sylweddol ar fanylion gwaith y Panel a'i berthynas â rhanddeiliaid. Nid oedd yn ymddangos yn briodol troi'r holl syniadau hyn yn argymhellion oherwydd mai eu bwriad yn hytrach yw ysgogi trafodaeth, ac roedd angen profi llawer ohonynt yn ymarferol. Maent yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer yr argymhellion a dylid eu hystyried yn llawn wrth wneud y newidiadau eraill. Cynhwysir pwyntiau pwysig nad ydynt wedi eu hawgrymu yn yr argymhellion yn adran "Gwaith i'w orffen" ar ddiwedd Pennod 9.

## **Cydnabyddiaeth**

Rwyf yn hynod ddiolchgar i Leighton Jones am ei holl gymorth a chefnogaeth yn ystod yr adolygiad hwn. Trefnodd yr holl gyfarfodydd ac roedd yn ddiflino wrth ateb fy holl ymholiadau, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl gwneud y gwaith hwn o fewn yr amser a bennwyd heb ei gymorth.

Rwyf yr un mor ddiolchgar i John Bader, Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac i'w gydaelodau am fy nghroesawu i'w cyfarfodydd, am eu hamynedd wrth imi ddysgu am eu gwaith, ac am eu hymgysylltiad llwyr â'r adolygiad.

Yn yr un modd, roedd Elaina Chamberlain a'i chydweithwyr yn yr Adran yn gefnogol iawn i'r gwaith a wneuthum ac roedd y canllawiau a roesant imi yn ddefnyddiol iawn.

Fel y nodwyd uchod, rwyf hefyd yn ddiolchgar am y ffordd agored ac ymgysylltiol y bu'r holl gynrychiolwyr Cynghorau ac Awdurdodau a'r cyrff sy'n eu cynrychioli yn gweithio gyda'r Adolygiad.

## Pennod 2

# Dadansoddiad o system Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU.

Yn y DU, mae gan bob gwlad ei system ar wahân ei hun o gydnabod Cynghorwyr. Mae'r bennod hon yn nodi elfennau allweddol system pob gwlad ac yn cymharu lefel y taliad sy'n deillio o hynny. Rwyf wedi canolbwyntio ar Brif Gynghorau, ac nid wyf wedi ystyried Cynghorau Dosbarth yn Lloegr nad ydynt yn Fetropolitanaid oherwydd na ellir eu cymharu yn briodol â Phrif Gynghorau Cymru. Rwyf wedi ystyried Prif Gynghorau Gogledd Iwerddon er bod eu swyddogaethau a'u cwmpas gryn dipyn yn llai na Phrif Gynghorau Cymru. Nodir crynodeb o'r gwahaniaethau allweddol yn Atodiad C, a chynhwysir crynodeb o'r gwahanol gyfraddau cyflog yn yr Atodiad hwnnw hefyd.

### Cymru

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd) mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyflog Cynghorwyr ar gyfer Prif Gynghorau, Cyngorau Tref a Chymuned, Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Ar gyfer Prif Gynghorau, mae hyn yn cynnwys Cyflog Sylfaenol y mae'n rhaid ei dalu i bob Cyngorydd (oni bai ei fod yn ei ddirymu yn bersonol), yn ogystal â thaliadau i Gynghorwyr sydd â swyddogaethau "Uwch", megis Arweinydd, Aelod Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor neu Arweinydd Dinesig. Yng Nghymru, y Panel sy'n pennu cyfanswm nifer yr Uwch Gyflogau fesul Cyngor, yn ogystal â chyfradd y tâl ar gyfer pob math o Uwch Gyflog. Caiff cyngorau benderfynu faint o bob rheng lwfans cyfrifoldeb arbennig y dylid ei gael, yn amodol ar beidio â bod yn fwy na'r uchafswm<sup>1</sup>. Mae'r Panel yn llunio adroddiad bob blwyddyn ac yn ymgymryd â rownd o drafodiadau ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol cyn llunio adroddiad drafft, ac yna ddrafft terfynol.

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi gwneud darpariaeth hefyd i Gynghorwyr hawlio treuliau, darparu cymorth TG a chymorth arall, a gweithredu cynllun talu gofalwyr. Caiff cyngorwyr ymuno â'r cynllun pensiwn llywodraeth leol hefyd.

Yn unigryw, mae wedi penderfynu y dylid talu £150 y flwyddyn i bob Cyngorydd Tref a Chymuned am y treuliau yr eir iddynt gan gefnogi eu swyddogaeth, oni bai eu bod yn dirymu'r taliad yn unigol. Er bod darpariaeth i dalu Cyngorwyr Plwyf a Thref yn Lloegr, ychydig iawn sy'n cael eu talu, ac ni thelir Cyngorwyr cyfatebol yn yr Alban pan ystyrir bod y swyddogaeth yn wirfoddol. (Nid oes Cyngorau Plwyf cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon). Edrychaf ar beth dadansoddiad o ganlyniadau y penderfyniad hwn tua diwedd y bennod hon.

---

<sup>1</sup> Caiff cyngorau wneud cais i'r Panel i gynyddu eu nifer uchaf o lwfansau cyfrifoldeb arbennig, ac yn eithriadol gyda chymeradwyaeth Gweinidog Llywodraeth Cymru, i dros 50% o nifer y Cyngorwyr.

## Lloegr

Sefydliar taliadau Cynghorwyr yn Lloegr o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Lloegr) 2003. Er bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi pwerau cyfarwyddo ac ymyrryd helaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol, mae'r rheoliadau mewn bod yn darparu ar gyfer cynllun rhyddfrydol iawn. I grynhoi, mae Cynghorau'n sefydlu eu cynllun talu lwfansau sylfaenol (Cyflog Sylfaenol) a lwfansau cyfrifoldeb arbennig (sy'n cyfateb i'r Uwch Gyflogau) eu hunain yn amodol ar ystyried argymhellion Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd yn lleol.

Er bod yn rhaid talu'r lwfans sylfaenol i bob Cynghorydd, ychydig o gyfyngiadau eraill sydd mewn cysylltiad â'r swm a delir, nifer yr Uwch Gyflogau, neu'r swyddogaethau y gellir eu talu. Ceir ardaloedd ble mae Paneli Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ar y cyd wedi eu sefydlu, megis Llundain. Mewn llawer o leoedd, nid yw'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol yn cyfarfod yn aml. Un arfer cyffredin yw sefydlu cynllun sy'n cynnwys mynegeio, ac yna peidio â chyfarfod am bedair blynedd (oherwydd bod angen adolygu cynlluniau sy'n cynnwys mynegeio bob pedair blynedd). Os nad oes mynegeio, gall cynllun barhau am gyfnod amhenodol heb fod angen i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol gyfarfod, er hynny, yn ymarferol, mae angen i Gynghorau newid nifer neu swyddogaethau yr Uwch Gyflogau yn aml ac ni allant wneud hynny heb gyngor oddi wrth eu Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Ymgynghorais â Declan Hall<sup>2</sup> ynglŷn â'r system yn Lloegr. Mae Declan yn cynghori Cynghorau yn broffesiynol ar Gadeiryddion a Chydabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr ac mae wedi Cadeirio llawer o Baneli Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol yn Lloegr. Yn nodweddiadol, gwneir y cyfraddau a bennir trwy feincnodi â chynlluniau awdurdodau cyfagos neu debyg, gan gysylltu â lefelau cyflog a gymedrolir gan amcangyfrif faint o waith a wnaed gan Gynghorwyr, ac yn aml, mynegai sy'n gysylltiedig, er enghraifft, â newidiadau i gyflogau yn y sector cyhoeddus<sup>3</sup>. Ni chaiff cynghorwyr ddefnyddio'r cynlluniau pensiwn, ond maent yn cael hawlio treuliau, ac mae Paneli Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol yn cael argymhell lwfansau gofaluwr a roddir ar waith gan Gynghorau. Hefyd, mae llawer o Gynghorau yn darparu cymorth ychwanegol helaeth i Gynghorwyr, megis swyddogaethau cymorth i aelodau, defnyddiau ysgrifennu a TG.

---

<sup>2</sup> Cyfranogodd Declan Hall at y broses o sefydlu Panel Cymru a bu'n Gadeirydd am gyfnod

<sup>3</sup> Gellir gweld enghreifftiau o adroddiadau yn:

[REPORT OF THE INDEPENDENT REMUNERATION PANEL \(shropshire.gov.uk\)](https://www.shropshire.gov.uk/reports/Independent-Remuneration-Panel-Report-2017-18)

[Microsoft Word - CheshireEastCouncilsIndependentRemunerationPanelV70.doc](#)

[Independent Remuneration Panel Reports | Birmingham City Council](#)

Mae gan bob Cyngor adroddiad, a gallant fod yn wahanol iawn, felly enghreifftiau yn unig yw'r rhain i'w cymharu â phrofiadau yng Nghymru.

## Yr Alban

Cyfrifoldeb y Llywodraeth Ddatganoledig yw penderfynu ar gyflog Cynghorwyr yn yr Alban. Mae'r system yno yn seiliedig ar adroddiad SLARC (Scottish Local Authorities Remuneration Committee) yn 2009 ac ymateb Llywodraeth yr Alban ym mis Chwefror 2010. Llywodraeth yr Alban sy'n pennu'r cynllun trwy Reoliadau, a'r diweddaraf a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2021 yw Deddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 2004 Rheoliadau Diwygio (Taliadau) 2021<sup>4</sup>.

Pennir cyflog sylfaenol Cynghorwyr trwy gyfeirio at gyflog gweithwyr Sector Cyhoeddus yr Alban fel y'u cyhoeddwyd gan ONS yn ei Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). £18,604 yw hynny ar gyfer blwyddyn 2021/22, sy'n gadael yr Alban â'r cyflog sylfaenol cyfartalog uchaf i Gynghorwyr yn y DU. Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu lefel y taliad ar gyfer Arweinydd pob Cyngor a Phennaeth Dinesig, sy'n amrywio rhwng Cynghorau gan ddibynnu ar ba un o'r pedwar Band y mae'r Cyngor ynddo (dim ond Glasgow a Chaeredin yw un o'r Bandiau). Defnyddir band y Cyngor i bennu nifer yr uwch daliadau a ganiateir hefyd, ond nid swm y taliad. Ar ôl yr Arweinydd, dim ond uchafswm o 75% o gyfradd yr Arweinydd y caniateir ei dalu am y Swyddogaeth uchaf ar ôl hynny, ond mae'n rhaid i bob Cynghorydd gael y cyflog sylfaenol o leiaf.

Yn wahanol i Gymru, pennir cyfanswm yr uwch gyflog gan fformiwla. Ar gyfer pob Cyngor, cyfrifir hyn trwy gymryd hanner yr uchafswm a ganiateir ar gyfer Uwch-gynghorydd nad yw'n arweinydd (h.y., 37.5% o gyflog yr Arweinydd uwchben y Cyflog Sylfaenol) a'i luosi â'r nifer uchaf o Uwch-gynghorwyr a ganiateir. Yn y swm hwnnw, mae'r Cyngor yn rhydd i greu cynifer o wahanol fathau o swyddogaethau ar ba lefelau cyflog bynnag y dymuna. Fel mewn mannau eraill, mae Cynghorau'n darparu swyddogaethau cymorth i Gynghorwyr ac yn darparu ar gyfer treuliau a gofynion gofawr.

## Gogledd Iwerddon

Mae Cynghorau yng Ngogledd Iwerddon yn llawer llai, gyda llai o gyfrifoldebau na Phrif Awdurdodau mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n bwysig cofio hyn wrth wneud cymariaethau.

Mae cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yn seiliedig ar y pwerau yn Rhan 3 adran 31(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2011, ac yn benodol, fe'i pennir gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau i Gynghorwyr) (Gogledd Iwerddon) 2019. Ceir Local Government Circular 07/2021<sup>5</sup> hefyd sy'n rhoi cyngor ymarferol ar ddehongli a gweithredu y Rheoliadau. Mewn gwirionedd, yr Adran Gymunedau yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon sy'n penderfynu ar y cynllun.

---

<sup>4</sup> Gellir gweld manylion cynllun yr Alban yn: [The Local Governance \(Scotland\) Act 2004 \(Remuneration\) Regulations 2007 \(legislation.gov.uk\)](#) a'r fersiwn bresennol yn: [The Local Governance \(Scotland\) Act 2004 \(Remuneration\) Amendment Regulations 2021 \(legislation.gov.uk\)](#). Ceir disgrifiad sy'n fwy addas i ddefnyddiwr yn: [Local government: Councillors' roles, conduct and pay - gov.scot \(www.gov.scot\)](#)

<sup>5</sup> Gellir gweld y cylchlythyr yn: [Circular LG 07/2021 - Consolidated Councillor Allowances | Department for Communities \(communities-ni.gov.uk\)](#)



Caiff pob Cyngor wneud ei gynllun ei hun yn unol â rheolau caeth. Mae'n rhaid talu'r cyflog neu'r lwfans sylfaenol i bob Cyngorydd ac ni chaiff fod yn uwch na'r lefel uchaf a bennir gan yr Adran. Ni chaiff yr un Cyngorydd fwy nag un Uwch Gyflog, ac o ran cyfanswm, llai na 50% o Gyngorwyr ar bob Cyngor sy'n cael ennill Uwch Gyflog. Caiff cyngorau eu grwpio'n dri band mewn cysylltiad â maint y boblogaeth, ac ar gyfer pob Band, mae'r Adran yn pennu gwerth am gyfanswm yr holl Uwch Gyflogau yn y Cyngor, ac ni chaiff unrhyw Uwch Gyflog unigol fod dros 20% uwchben yr uchafswm hwnnw.

O dan a332 o'r Ddeddf, caiff Cyngorau wneud taliadau rhesymol i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Nid oes unrhyw gyfyngiadau rheoleiddio ar y taliadau hyn.

Bwriedir i'r Lwfans Sylfaenol gynnwys defnyddio cartref y Cyngorydd, defnyddiau traul swyddfa, a chost galwadau llinell dir a ffonau symudol. Rhwir cap ar lwfans gofalwyr dibynyddion hefyd ar 52 awr y mis ac yn gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol neu ddwywaith y gyfradd honno ar gyfer anghenion uwch. Mae cyngorau hefyd yn talu am deithio a chynhaliadaeth, ac fe gânt ddarparu ar gyfer TG neu galedwedd symudol, cost band eang a data symudol.

## **Dadansoddi cymariaethau**

Mae'n anodd cael ffynhonnell gynhwysfawr a chywir o ddata ar daliadau ledled y DU. Y ffynhonnell orau y deuthum ar ei thraws oedd adroddiad Taxpayer's Alliance, "Councillors' Allowances 2020",<sup>6</sup> sydd â set ddata sydd bron yn llawn ar gyfer pob prif gyngor ar gyfer y DU o adroddiadau taliadau Cyngorwyr a gyhoeddwyd gan Gyngorau. Nodir y set ddata a ddefnyddiais yn Atodiad D. Gwiriais holl niferoedd y Cyngorwyr yn y set ddata, cwblheais ddata coll trwy fynd i wefannau'r Cyngorau ei hunain, gwiriais bwyntiau data a oedd yn edrych yn eithriadol a chynhaliadaeth archwiliad sampl o'r data eraill er mwyn sicrhau fy hun y byddai'r dadansoddiad yn gadarn. Mae'n debygol bod gwallau o hyd yn y data hyn, ond mae'n annhebygol o fod yn ddigon i ddileu'r dadansoddiad cryno a gynhaliadaeth. Mae'r data'n ymwneud â 2018/19, a dyna pam y bydd y symiau'n ymddangos yn is na'r cyfraddau tâl cyfredol.

---

<sup>6</sup> [www.taxpayersalliance.com/councillors\\_allowances\\_2020](http://www.taxpayersalliance.com/councillors_allowances_2020)

Table 1 Basic Salary by Council type in UK 2018/19									
2018-19	Wales	Scotland	N Ireland	London	Met Dists	Unitaries	Counties	England	All Non Wales
Minimum	£13,567	£16,926	£14,200	£8,086	£6,492	£687	£8,312	£687	£687
Maximum	£13,600	£16,994	£14,775	£12,000	£16,926	£14,189	£15,086	£16,926	£16,994
Average	£13,595	£16,989	£14,695	£10,323	£10,918	£9,465	£10,950	£10,265	£11,647
Frequency of BS									
£0	-	-	-	-	-	1	-	1	1
£2,000	-	-	-	-	-	1	-	1	1
£4,000	-	-	-	-	-	-	-	-	-
£6,000	-	-	-	-	3	14	-	17	17
£8,000	-	-	-	10	9	15	6	40	40
£10,000	-	-	-	22	14	13	14	63	63
£12,000	22	-	-	-	7	8	4	19	19
£14,000	-	-	11	-	1	2	2	5	16
£16,000	-	32	-	-	2	-	-	2	34
£18,000	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Number of authorities	22	32	11	32	36	54	26	148	191

Mae Tabl 1 yn nodi lefel y cyflog sylfaenol ar gyfer pob Gwlad, ac yn Lloegr, ar gyfer Cynghorau Sir, Dosbarthiadau Metropolitaidd, Bwrdeistrefi Llundain a Chynghorau Unedol, yn ôl yr isafswm, yr uchafswm a'r cyfartaledd, ac mae'n dangos dosbarthiad y symiau hynny.

Yr hyn y gellir ei weld o Dabl 1 yw mai effaith y system genedlaethol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yw sicrhau bod pob Cynghorydd yn cael yr un taliad. Yr arsylwad diddorol arall, ar gyfartaledd, yw bod awdurdodau yn Lloegr (ble mae'r Cyngor yn gwneud ei benderfyniad ei hun) yn tueddu i dalu llai. Dim ond mewn 26 (17%) o awdurdodau yn Lloegr y mae'r cyflog sylfaenol gymaint ag ydyw yng Nghymru neu'n rhagori arno, er bod Lloegr yn cynnwys y Cynghorau mwyaf yn y DU (yn ôl poblogaeth a gwariant). Mae Cymru, sydd â Phanel Annibynnol ac sy'n cynnal adolygiadau ac ymgynghoriad rheolaidd, yn talu llai na'r systemau cenedlaethol eraill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ble mae taliadau yn cael eu mynegeo ac nid oes llawer o graffu cyhoeddus parhaus ar newidiadau mewn lwfansau. Yr Alban sy'n talu'r mwyaf, ac nid oes unrhyw Awdurdodau yn Lloegr hyd yn oed sy'n talu mwy na'r Alban.

Mae Tabl 2 yn dangos dadansoddiad tebyg o Uchafswm y taliad Uwch Gyflog ym mhob math o awdurdod.

Table 2	Largest Senior Allowance by type of Council in the UK								
2018-19	Wales	Scotland	N Ireland	London	Met Dists	Unitaries	Counties	England	All Non Wales
Min	£16,700	£9,670	£5,411	£4,989	£10,512	£2,333	£23,608	£2,333	£2,333
Max	£48,275	£50,986	£29,000	£82,620	£81,668	£63,625	£53,804	£82,620	£82,620
Average	£33,430	£17,863	£15,079	£38,590	£29,993	£25,603	£33,761	£30,912	£27,814
Frequency of Max SS									
£0	-	2	3	1	-	1	-	2	7
£10,000	-	11	3	-	2	6	-	8	22
£15,000	1	10	2	-	4	7	-	11	23
£20,000	1	6	1	2	8	14	1	25	32
£25,000	5	-	2	5	6	14	5	30	32
£30,000	14	2	-	11	12	10	16	49	51
£40,000	1	-	-	7	2	-	3	12	12
£50,000	-	1	-	5	1	3	1	10	11
£80,000	-	-	-	1	1	-	-	2	2

O ystyried yr hyblygrwydd mwy wrth bennu Uwch Gyflogau, mae llawer mwy o amrywiaeth ym maint y taliad mwyaf. Yn nodweddiadol, awdurdodau yn Lloegr sydd â Meiri a etholwyd yn uniongyrchol sy'n talu'r taliad sengl uchaf. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, taliadau Cymru yw'r uchaf, a'r rhai yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban yw'r isaf. Mae'n debyg bod hyn yn cael ei sbarduno gan y cyfyngiadau a roddir ar gyfanswm gwerth yr Uwch Gyflogau gan y fformiwlâu a ddefnyddir yn eu systemau cenedlaethol. Mae Cynghorau Sir a Bwrdeistrefi Llundain yn talu mwy nag awdurdodau yng Nghymru ar gyfartaledd ac yn fwy cyffredinol mae awdurdodau Lloegr yn talu Uwch Gyflogau ag uchafsymiau uwch. Mae'n ymddangos fel pe bai cyflog sylfaenol yn isel, uwch gyflog yn uwch ac i'r gwrthwyneb fel rhyw fath o gydbwysedd naturiol. Byddai angen llawer mwy o waith ddadansoddi i ddod i unrhyw gasgliadau pendant. Er hynny, mae'n ymddangos bod Cynghorau'n amharod i gael eu gweld yn talu cyflogau mawr i bob Cynghorydd ond eu bod yn fwy parod i gyfiawnhau taliadau uwch ar gyfer swyddogaethau sydd wedi eu diffinio'n gliriach.

Mae'n debyg nad edrych ar uchafswm yr Uwch Gyflog yw'r ffordd orau o ddeall y cydbwysedd rhwng cyflog sylfaenol ac uwch daliadau. Mae Tabl 3 yn edrych ar gostau'r Uwch Gyflogau fel canran o gost y cyflogau sylfaenol fesul Cyngor.

Table 3	Sum of SSs as % of Sum of BS								
2018-19	Wales	Scotland	N Ireland	London	Met Dists	Unitaries	Counties	England	All Non Wales
Min	23.10%	12.36%	12.36%	31.51%	23.58%	7.51%	37.31%	7.51%	7.51%
Max	43.43%	35.01%	31.30%	103.09%	83.16%	103.40%	78.68%	103.40%	103.40%
Average	32.80%	23.42%	20.88%	64.62%	44.38%	46.57%	55.87%	51.58%	45.09%
Distribution of SS as % of BS									
0%	-	-	-	-	-	1	-	1	1
10%	-	12	5	-	-	3	-	3	20
20%	7	14	5	-	7	9	-	16	35
30%	12	6	1	4	10	6	2	22	29
40%	3	-	-	5	7	13	9	34	34
50%	-	-	-	5	5	14	6	30	30
60%	-	-	-	4	4	3	5	16	16
70%	-	-	-	5	1	-	4	10	10
80%	-	-	-	6	2	3	-	11	11
90%	-	-	-	2	-	2	-	4	4
100%	-	-	-	1	-	1	-	2	2

Mae hyn yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhagdybiaeth gynharach. Yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â'r gost gyfartalog isaf o uwch daliadau fel canran o'r taliadau sylfaenol ac ymddengys fod hynny'n adlewyrchu'r cyfyngiadau a achosir gan uchafswm y taliadau y gellir eu gwneud yn eu cynlluniau cenedlaethol. Cymru sydd â'r cyfartaledd isaf ar ôl hynny, sy'n sylweddol is na'r gost gyfartalog ym mhob rhan o Loegr. Ymddengys yn ddiau, pan fo Cynghorau'n rhydd i bennu eu trefn eu hunain, ei bod yn well ganddynt daliadau is i Gynghorwyr meinciau cefn a'u bod yn barod i gyfiawnhau taliadau uwch i Gynghorwyr sydd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Mae'r gymhariaeth olaf yn ceisio edrych ar "fforddiadwyedd" y gwahanol gynlluniau. Mae Tabl 4 yn edrych ar gost yr holl daliadau Cynghorwyr fel canran o'r gwariant net. Ceir cryn amrywioldeb, hyd yn oed pan fo cynlluniau cenedlaethol ar waith. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywioldeb yng nghyllidebau'r Cyngor yn ogystal â dewisiadau ynghylch cynlluniau cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr.

Mae Gogledd Iwerddon yn ddrutach o lawer nag unman arall yn y DU, a achosir bron yn gyfan gwbl gan y cyllidebau y mae eu cyfartaledd yn llawer llai. Er gwaethaf y cyflog sylfaenol mwyaf hael, yr Alban sydd â'r gost gyffredinol rataf (heblaw am siroedd Lloegr), ac mae hyn bron yn sicr oherwydd y cyfyngiadau ar uwch daliadau. Heblaw am Gynghorau Sir, mae cynlluniau Cymru yn llai beichus nag awdurdodau Lloegr ar gyfartaledd. Ar gyfartaledd, mae awdurdodau Lloegr yn gwario 29% yn fwy fel canran o'u cyllideb net ar gydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr nag awdurdodau Cymru.

Table 4		Cost as % of Net Revenue Spend							
2018-19	Wales	Scotland	N Ireland	London	Met Dists	Unitaries	Counties	England	All Non Wales
Min	0.16%	0.15%	0.57%	0.33%	0.26%	0.03%	0.17%	0.03%	0.03%
Max	0.48%	0.73%	1.64%	0.82%	0.62%	1.99%	0.33%	1.99%	1.99%
Average	0.35%	0.28%	1.15%	0.51%	0.44%	0.52%	0.24%	0.45%	0.46%
Distribution of cost									
0%	-	-	-	-	-	1	-	1	1
0.10%	1	5	-	-	-	-	5	5	10
0.20%	5	20	-	-	3	-	19	22	42
0.30%	10	4	-	6	6	8	2	22	26
0.40%	6	1	-	11	18	22	-	51	52
0.50%	-	-	1	10	7	16	-	33	34
0.60%	-	1	-	3	2	3	-	8	9
0.70%	-	1	-	1	-	3	-	4	5
0.80%	-	-	-	1	-	1	-	2	2
0.90%	-	-	1	-	-	-	-	-	1
1%	-	-	4	-	-	-	-	-	4
1.10%	-	-	1	-	-	-	-	-	1
1.20%	-	-	-	-	-	-	-	-	-
1.30%	-	-	2	-	-	-	-	-	2
1.40%	-	-	1	-	-	-	-	-	1
1.50%	-	-	-	-	-	-	-	-	-
1.60%	-	-	1	-	-	-	-	-	1
1.70%	-	-	-	-	-	-	-	-	-
1.80%	-	-	-	-	-	-	-	-	-
1.90%	-	-	-	-	-	1	-	1	1
2.00%	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi rhywfaint o oleuni ynghylch effaith gwahanol ddulliau o ymdrin â chydabyddiaeth ariannol cynghorwyr ar lefelau talu a chost. Nid yw'n ddadansoddiad gwyddonol cadarn o'r pwnc, ond mae'n helpu i ymdrin â rhai syniadau rhagdybiedig y bydd gan rywun. Mae'n bosibl y byddai person lleig yn dymuno dadlau bod angen rheoleiddio cyflog Cynghorwyr yn dynn oherwydd pe byddai'n cael ei adael iddynt eu hunain byddai Cynghorwyr yn dymuno "pluo eu nythod eu hunain". Fodd bynnag, byddai gwrthgyferbynnu dull "marchnad rydd" Lloegr at dull "rheoleiddiedig" y gwledydd datganoledig yn tueddu i awgrymu bod rhagdybiaeth wahanol yn wir. Mae cynghorwyr y fainc gefn "marchnad rydd" yn cael llai o dâl, ond mae uwch-swyddogaethau yn cael eu gwobrwyo'n fwy, a goddefir cyfanswm cost uwch. Yn yr ardaloedd mwy "rheoledig", mae cyflog y fainc gefn yn uwch, ac mae cost daliadau yn fwy cyfyngedig.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cefnogi argymhelliad 1 isod ynglŷn â'r angen i'r Panel wella'r dystiolaeth y gall ei defnyddio wrth wneud ei ystyriaethau a'i gasgliadau. Pe byddai'r fframwaith neu'r system a ddefnyddir i bennu Taliadau Cynghorwyr mewn gwahanol wledydd yn tueddu i ragfarnu canlyniad gwahanol fathau o daliadau, yna mae angen i'r Panel fod yn ymwybodol o ragfarn anymwybodol posibl pan fydd yn gwneud ei benderfyniadau. Nid oes digon o dystiolaeth i ddweud bod rhagfarn yn bodoli, ond gallwn ddangos y potensial am ragfarn.

## Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r taliad i Gynghorwyr Tref a Chymuned yng Nghymru ar raddfa na welir mewn mannau eraill yn y DU. Nid oes Cynghorau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon. Yn yr Alban, ffurfir Cynghorau Cymuned er mwyn ymgysylltu â chymunedau yn bennaf, yn enwedig mewn cysylltiad â chynllunio a cheisiadau thrwyddedu. Gwirfoddolwyr yw aelodau o Gynghorau Cymuned yn yr Alban ac nid ydynt yn cael eu talu.

Mae gan Loegr dros 9,000 o Gynghorau Tref a Phlwyf a wasanaethir gan dros 80,000 o Gynghorwyr. Mae'r Cynghorau hyn yn amrywio o ran maint y boblogaeth, lefelau'r gwariant ac ystod y gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw, mewn sawl ffordd fel y patrwm yng Nghymru. Gellir talu Cynghorwyr Plwyf a Thref yn Lloegr (y tu hwnt i gostau teithio, cynhaliaeth a threuliau eraill) yn ddarostyngedig i argymhellion y Parish Remuneration Panel (PRP) a sefydlwyd gan y Prif Gyngor yn yr ardal y'u lleolir ynddynt. O dan Reoliadau, caiff unrhyw gynllun ddarparu ar gyfer taliad sylfaenol i bob Cynghorydd a/neu daliad i Gadeirydd y Cyngor, ond nid i Aelodau cyfetholedig, yn ogystal â chynllun treuliau. Mater i'r Cynghorau Plwyf eu hunain yw penderfynu a ddylid mabwysiadu a gweithredu'r adroddiad PRP, ac nid yw llawer ohonynt yn gwneud hynny.

Nid oes sail data cynhwysfawr o daliadau na chynlluniau ar gyfer Lloegr, felly mae'n anodd gwybod pa mor eang yw'r taliadau hyn. Y consensws yw mai ychydig iawn o Gynghorau sy'n mabwysiadu cynlluniau a lle maent yn gwneud hynny, nid yw llawer o Gynghorwyr yn derbyn taliad. Ceir tystiolaeth<sup>7</sup> o wrthwynebiad cyffredin i unrhyw daliadau o gwbl gan Gynghorwyr lleol.

Trwy chwilio'r rhyngwyd, roeddwn yn gallu nodi rhai Cynghorau lleol yn Lloegr lle bo cynlluniau yn cael eu gwneud a thaliadau yn cael eu derbyn<sup>8</sup>. Y lefel isaf o daliad oedd £30 y flwyddyn ar gyfer Plwyfi yng Nghyngor Dosbarth De Lakeland ac aeth i fyny hyd at gymaint â £1,586 ar gyfer Cyngor Plwyf West End Llundain yn Surrey Heath. O'r 19 cynllun yr edrychais arnynt ble'r oedd adroddiadau PRP wedi eu gwneud (nid oedd adroddiad ar gyfer mwyafrif yr ardaloedd), roedd 2 nad oedd wedi rhoi cynllun ar

---

<sup>7</sup>Er enghraifft, ceisiodd adroddiad 2017 y PRP ar gyfer Cyngor Hawkhurst, sy'n rhan o Tunbridge Wells, ymchwilio i raddau a lefel taliadau y Cyngor Plwyf. Canfuwyd 10 Cyngor Plwyf a wnaeth daliadau y tu allan i'w hardal, ond sylwadau cryf yn erbyn taliadau hefyd gan Gynghorwyr lleol.

<https://hawkhurst-pc.gov.uk/wp-content/uploads/2019/04/Hawkhurst-Parish-Council-Remuneration-Panel-Report-31.07.17.pdf>

<sup>8</sup>Nid sampl wyddonol yw hwn, ac ni ellir ei ddefnyddio fel arwydd o faint o gynghorau sydd â chynllun.

waith, roedd 4 wedi talu llai na £200, roedd 8 wedi talu rhwng £200 a £500, roedd 2 wedi talu rhwng £500 a £1000, ac roedd 3 wedi talu dros £1000. Adroddiad nodweddiadol yw'r adroddiad ar gyfer Amber Valley<sup>9</sup>. Dim ond 4 o'r 25 Plwyf yn y dosbarth a ymatebodd (nid ymatebodd 6 ohonynt) oedd yn credu y dylid talu lwfans sylfaenol i gynghorwyr plwyf. Fodd bynnag, penderfynodd y Panel wneud cynllun fel y gallai Plwyfi arfer disgresiwn i wneud taliadau, gan benderfynu ar gynllun yn seiliedig ar Bolsover sy'n rhagdybio 10 awr y mis ac yna'n disgowntio 90% o'r ffigur canlyniadol ar gyfer elfen "Wirfoddol" y swyddogaeth, a chyrraedd ffigur o £154 fesul blwyddyn. Nid yw'n glir faint o'r Plwyfi a gymerodd ran yn y cynllun.

Er bod llawer mwy o wybodaeth ar gael i Gymru oherwydd bod cynllun cenedlaethol, mae'n orfodol gwneud taliad o £150 fesul Cynghorydd fesul blwyddyn oni bai bod yr unigolyn yn ei ddirymu, ac mae'n ofynnol i Gynghorau Tref a Chymuned gyhoeddi eu cynllun ac anfon ffurflenni i Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Ar gyfer 2020/21, ychydig dros ddwy ran o dair o'r 734 o Gynghorau Tref a Chymuned a anfonodd eu ffurflenni. Mae Tabl 5 isod yn crynhoi peth o'r wybodaeth o'r ffurflenni hynny, yn ogystal ag edrych ar gost taliadau o'u cymharu â'r praeseptau a godwyd.

Table 5	Analysis of Town and Community Council returns			
	Band A	Band B	Band C	Total
Average cost per Council of Councillor payments	£4,121	£1,552	£280	£1,107
Average Potential cost of Councillor payments per Council, if no Councillor refuses £150	£5,575	£2,874	£1,545	£2,411
Average cost of Councillor payments as % of Precept	1.11%	2.37%	2.22%	2.16%
Average potential cost of Councillor payments as % of Precept	1.58%	4.96%	19.93%	13.03%
Percentage of Councillors refusing the £150	58%	73%	93%	80%

Dosberthir Cynghorau Tref a Chymuned yn Fandiau yn ôl lefelau eu gwariant. Band A yw'r mwyaf ond sydd â'r lleiaf o ran niferoedd, ac mae Cynghorau Band C yn gwario llai na £30,000 fesul blwyddyn.

<sup>9</sup>

Edrychais ar y gost gyfartalog fesul Cyngor, y gost posibl cyfartalog pe byddai pob Cynghorydd yn derbyn ei lwfans o £150, a chanran y praesept<sup>10</sup> a gynrychiolir gan bob un o'r rhain. Rwyf hefyd yn dangos canran y Cynghorwyr na fanteisiodd ar eu lwfans sylfaenol.

Yr hyn y mae'r tabl yn ei ddangos yn gyntaf yw cyfran uchel iawn o Gynghorwyr nad ydynt yn manteisio ar eu hawl, sy'n adlewyrchu'r teimlad cyffredinol a geir yn sefyllfa Lloegr. Mae cost y taliadau hyn fel canran o'r dreth a gymerir yn llawer uwch o'i chymharu â Phrif Gynghorau. Ond byddai'r gost yn llawer uwch pe byddai'r Cynghorwyr yn manteisio ar eu holl hawliau, gan godi i 20% bron, ar gyfartaledd, o gyfanswm y praesept ar gyfer y Cynghorau sy'n gwario lleiaf. Mae bron fel petai Cynghorwyr yn gwrthod eu hawl oherwydd eu bod yn sylweddoli nad yw'n fforddiadwy. Heblaw am gost y cynlluniau, fe'i gwnaed yn glir imi hefyd fod llawer o Gynghorau Tref a Chymuned, yn enwedig y rhai llai, yn cael trafferth â'r gallu i reoli'r cynllun a roddwyd ar waith gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Ymddengys mai'r ddau brif wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr yw bod y lwfans sylfaenol, pan mae ar gael yn Lloegr ar gyfer Cynghorwyr Tref, Plwyf a Chymuned, yn uwch nag ydyw yng Nghymru, ond yn Lloegr, caiff Cynghorau benderfynu a ydynt yn mynd i fabwysiadu'r cynllun ai peidio. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn cynnal adolygiad o'r cynllun taliadau Tref a Chymuned eleni. Argymhellaf ei fod yn ystyried data fel hyn wrth lunio ei gynigion, yn ogystal â'r ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid y mae eisoes wedi ei gynllunio.

## Gwahaniaethau Methodolegol

Hyd yn hyn, mae'r adolygiad wedi edrych ar y prosesau gwneud penderfyniadau ffurfiol a lefel y taliadau a wnaed. Serch hynny, un ystyriaeth bwysig ym mhob cynllun yw'r cyfiawnhad neu'r fethodoleg a fabwysiedir sy'n llywio'r gwaith o gyfrifo'r taliadau.

Mae Adroddiad Blynyddol 2021/2022 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ailadrodd y dull gweithredu yng Nghymru. Noda paragraff 5 yn y cyflwyniad mai'r nod gwreiddiol oedd pennu'r cyflog sylfaenol fel 3/5 y Cyflog Canolrifol yng Nghymru. Roedd hyn er mwyn cydnabod bod cyfraniad di-dâl tuag at y gwasanaeth cyhoeddus, ond roedd hefyd yn adlewyrchu safbwynt bod y Cynghorydd cyffredin wedi treulio 3 diwrnod yr wythnos ar fusnes y Cyngor. Mae cydbwysu'r nod hwn â'r gofyniad penodol i wneud taliadau'n fforddiadwy wedi golygu nad yw'r cyswllt hwn â thâl cyfartalog erioed wedi ei gyflawni.

Yn yr Alban, pennwyd yr egwyddorion a fabwysiadwyd ar gyfer y cyflog sylfaenol yn wreiddiol ar 75% o gyflog canolrifol yr Alban. Ymddengys fod hyn yn tybio bod Cynghorydd yn swyddogaeth llawn amser ac iddi rwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus ac y dylid ei digolledu ar lefelau cyflog canolrifol. Fel yng Nghymru, ni chyflawnwyd y lefel hon, ac oherwydd bod dal i fyny wedi ei ystyried yn annerbyniol, mae'r

---

<sup>10</sup>Yr ardoll ar drethdalwyr yw praesept, ond gall fod yn wahanol i gyfanswm y gwariant gan Gyngor oherwydd eu bod nhw'n gallu bod â ffynonellau incwm eraill a gallant dynnu oddi wrth gronfeydd wrth gefn ac ychwanegu tuag atynt, ond mae'n gydberthynol iawn â gwariant ac mae'n ddata sydd ar gael yn haws.



lefel is wedi parhau i fod yn fynegai sylfaenol, a gynyddir bob blwyddyn bellach, sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn nhâl gweithwyr y sector cyhoeddus.

Prin yw'r dystiolaeth sy'n bodoli yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer lefel y taliad. Mae Local Government Circular 23/2019 - Councillors' Allowances Guidance for District Councils in Northern Ireland yn nodi bod yn rhaid i bob Cyngor bennu lwfans sylfaenol sy'n hafal neu'n llai na'r uchafswm a ganiateir, "â'r nod o gydnabod holl ymrwymiad Cyngorwyr o ran amser, gan gynnwys galwadau sydd mor anochel ar eu hamser megis cyfarfodydd gyda swyddogion ac etholwyr". Ni allaf ddod o hyd i gyfiawnhad dyfnach dros unrhyw swm penodol. Mae'r symiau'n cael eu codi o bryd i'w gilydd yn unol â chwyddiant cyffredinol.


Nid oes gan Loegr fethodoleg gyffredinol. Oherwydd eu bod yn cynhyrchu eu cynlluniau ei hunain, mae pob Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn defnyddio ei ddull ei hun. Ffactorau a gynhwysir yn aml yw'r hyn y mae awdurdodau cyfagos neu awdurdodau tebyg wedi ei wneud, amcangyfrifon o'r amser y mae Cyngorwyr yn ei dreulio ar fusnes y Cyngor, cysylltiadau â chyfraddau cyflog canolrifol neu gyfartalog yn yr ardal neu gyfraddau cyflog yr ystyrir eu bod yn briodol fel gwerth cyfatebol i waith y Cyngor, mynegeio i ystod o ffactorau gwahanol ond, yn aml, codiadau cyflog swyddogion llywodraeth leol, gwahanol amcangyfrifon o'r disgownt am gyfrannu gwasanaeth cyhoeddus yn ddi-dâl.

Y casgliad yw nad oes fformiwla wedi ei sefydlu a dderbynnir yn eang ar gyfer cyfrifo cyflog sylfaenol, na hyd yn oed lefel taliad Uwch-gynghorydd. Ceir modelau a ddefnyddir ar gyfer swyddogaethau gwerth a maint y gellir eu cymryd o arfer cyflogaeth a allai fod yn berthnasol i'r materion sy'n bwysig yma. Gellir cyfuno ffactorau allweddol megis amser yn gwneud y gwaith; maint y swydd o ran cyfrifoldebau, adnoddau ac awdurdod; y sefyllfa yn y farchnad (pa mor gystadleuol y dylai'r swyddogaeth fod o'i chymharu â dewisiadau eraill); a ffactorau cymdeithasol megis y disgownt am gyfrannu at wasanaethau cyhoeddus; i gyfiawnhau'r cynllun talu yn dryloyw.

Er mwyn helpu gyda'r dull hwnnw, mae angen nodi'r dystiolaeth berthnasol unwaith eto. Yn Lloegr, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol yn cynnal cyfrifiad rheolaidd o weithgarwch fesul Cyngorydd<sup>11</sup>. Mae rhywfaint o hynny'n berthnasol i Gymru, ond efallai y bydd yn bosibl cynnal arolwg tebyg yng Nghymru. Er enghraifft, mae Siart 1 yn dangos dosbarthiad yr oriau y mae cyngorwyr yn dweud eu bod wedi eu treulio ar fusnes y Cyngor.

---

<sup>11</sup><https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/Councillors%27%20Census%202018%20-%20report%20FINAL.pdf>



Mae hynny'n dangos bod bron i 60% o Gynghorwyr wedi treulio llai nag 20 awr yr wythnos ar fusnes y Cyngor. Mae tabl arall yn dangos bod 53.5% o Gynghorwyr yn dweud bod ganddynt swydd a allai fod yn gymwys ar gyfer Uwch Gyflog ac mae 46.5% ohonynt yn dweud nad oes ganddynt swydd o'r fath. Mae'n debygol mai Cyngorwyr sydd â swyddi Uwch sy'n gweithio'r oriau hirach, sy'n rhoi cipolwg ar gydbwysedd a chymhareb y taliadau sydd rhwng cyflog sylfaenol a swyddogaethau Uwch Gyflog.

## Pennod 3 Adolygiad o Amcanion a'u cyflawniad

Mae Cylch Gwaith yr adolygiad hwn yn gofyn am “archwilio a yw bwriadau gwreiddiol y trefniadau newydd yn cael eu cyflawni h.y. penderfyniadau sy'n rhydd o ymyrraeth wleidyddol, tryloywder a didwylledd a thegwch”. Yn y cyd-destun hwnnw, mae “tegwch” yn cynrychioli cydbwysedd teg rhwng cydnabyddiaeth ariannol priodol Cynghorwyr a chost y taliad hwnnw i drethdalwyr, naill ai fel cost uniongyrchol neu gost y cyfle. Wrth i'r Panel ddatblygu, mabwysiadodd amcan ychwanegol a gefnogir yn eang os nad yw'n ysgrifenedig, ynghylch gwella gallu pobl o gefndiroedd amrywiol i gael swydd Cynghorydd. Profais hefyd y rhagdybiaeth mai'r rhain oedd yr amcanion cywir o hyd ac mai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd y dull cywir o wneud y penderfyniadau hyn.

### Annibyniaeth

Yr amcan clir oedd sefydlu dull o bennu cyflog Cynghorwyr a oedd yn rhydd o ymyrraeth wleidyddol, gan y ddau Gynghorydd a fyddai'n elwa'n uniongyrchol, a Llywodraeth Cymru hefyd. Gallai talu am swydd wleidyddol fod yn ddadleuol bob amser ac, yn aml, mae'n tynnu sylw oddi wrth dasgau pwysicach sy'n wynebu gwneuthurwyr penderfyniadau. Y syniad o Banel Annibynnol oedd dileu'r penderfyniadau hyn o'r maes gwleidyddol. Yn ogystal â bod yn annibynnol, roedd yn bwysig i'r Panel gael ei ganfod yn annibynnol, a bod pobl yn credu ei fod yn annibynnol hefyd.

Wrth wneud ei benderfyniadau, mae digon o dystiolaeth i ddangos bod y Panel yn annibynnol ac y credir ei fod yn annibynnol. Mewn trafodaethau ag Aelodau'r Panel, gwnaethant gadarnhau nad oeddent wedi eu rhoi o dan unrhyw bwysau gwleidyddol gan Lywodraeth Cymru i gymryd unrhyw safbwynt penodol. Cymerodd yr holl randdeiliaid y safbwynt hwn hefyd – CLILC, Un Llais Cymru, swyddogion o wasanaethau democrataidd, Cynghorwyr, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, a swyddogion polisïau o wahanol rannau o Wasanaeth Sifil Cymru. Roedd pawb y siaradais ag ef yn credu hefyd mai Panel annibynnol oedd y ffordd cywir a gorau o reoli penderfyniadau taliadau Cynghorwyr.

Yr unig fwlch yn yr asesiad hwn yw sut mae'r cyhoedd yn canfod gwaith y Panel. Mae'n ymddangos i mi nad yw hyn yn hysbys. Trafodaf y materion hyn ymhellach ym Mhennod 8.

Mae posibilrwydd, er nad oes unrhyw bwysau amlwg, fod y Panel yn “ailddyfalu” yr hyn y mae'r Llywodraeth yn dymuno ei gyflawni. Ni welais unrhyw dystiolaeth o hynny, ac mewn gwirionedd gwelais dystiolaeth amlwg fod rhai o benderfyniadau'r Panel (e.e., y taliad gorfodol i Gynghorwyr Tref a Chymuned, neu benderfyniad i godi'r terfynau ar y cynllun gofalwyr) yn cael eu hystyried yn rhai “beiddgar a dewr”.

Mae'n bosibl nad yw'r llythyr Cylch Gwaith blynyddol i'r Panel oddi wrth y Gweinidog yn cael ei weld fel cyfarwydddeb. Yn ymarferol, cytunir ar y llythyr ymlaen llaw rhwng y Panel a'r Adran ac mae'n tueddu i adlewyrchu'r rhaglen waith yn hytrach nag unrhyw ganlyniadau a ddymunir. Gan ddilyn yr un broses, mae'n bosibl y byddai'n well pe bai Cadeirydd y Panel yn anfon y llythyr at y Gweinidog er mwyn nodi rhaglen flynyddol y Panel.

Darperir cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Panel gan yr Adran. Ar y cyfan, mae hwn yn ateb pragmatig sy'n lleihau'r angen am seilwaith ar wahân a gallai fod yn ddrud i gefnogi gweithrediad bach. Fodd bynnag,

mae perygl y gellir ystyried hyn fel pe bai'r Adran yn "berchen" ar y Panel a'i benderfyniadau, a bu achosion o wrthdaro buddiannau rhwng cyfrifoldebau polisïau yr Adran ac ystyriaethau annibynnol y Panel. Af i'r afael â hyn ym Mhennod 7.

I gloi, mae'r Panel wedi sefydlu ei annibyniaeth, ac fe'i derbynnir felly gan yr holl randdeiliaid allweddol (ac eithrio'r cyhoedd sydd heb eu profi eto). Mae pawb yn credu bod y system hon yn well na'r dewisiadau eraill yn y DU – sef dewisiadau a gyfarwyddir yn genedlaethol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a hunanbenderfyniaeth system Lloegr. Mae hyn yn arbennig o wir am Gynghorwyr a Chynghorau y mae'n llawer gwell ganddynt gael rhywun i ddweud wrthynt beth yw'r taliadau na chymryd rhan yn y broses o'u pennu a'u cyfiawnhau yn sgil hynny. Mae gwelliannau y gellir eu gwneud, a gynigir yn ddiweddarach.

## **Bod yn Ddidwyll**

Rwyf wedi ystyried bod bod yn Ddidwyll yn wahanol i fod yn dryloyw ac rwyf wedi profi i ba raddau yr oedd y Panel ar gael ac yn agored am ei waith.

Mae'r Panel wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n ei wneud yn hygyrch iawn i wahanol randdeiliaid. Ar ôl trafod a chytuno gyda'r Adran ar feysydd pwyslais a blaenoriaeth am y flwyddyn, sy'n cael eu crisialu yn y llythyr Cylch Gwaith, mae'r Panel wedyn yn cynnal ymgynghoriad archwiliadol priodol â rhanddeiliaid perthnasol. Er enghraifft, yn 2021, un pwyslais allweddol yw adolygiad o daliadau Cynghorwyr Tref a Chymuned ac o ganlyniad gwnaethant gwrdd â grwpiau o Gynghorwyr a Swyddogion yn ogystal â chyrrff cynrychioliadol er mwyn darganfod beth oedd y materion allweddol. Maent yn bwriadu mynd ar drywydd rhai dewisiadau posibl ar gyfer ymgynghoriad anffurfiol cyn llunio'r adroddiad Drafft yn yr hydref.

Mae'n amlwg hefyd fod y prosesau ymgynghori a ddisgrifir yn ystyrlon. Cefais fwy nag un enghraifft o Gynghorau unigol neu gyrff cynrychioliadol yn nodi problemau â chynigion (hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu rhoi yn yr Adroddiad Drafft), ac roedd y Panel wedi gwrandao a diwygio ei benderfyniadau a'i gyngor o ganlyniad i hynny. Gwnaeth parodrwydd Aelodau'r Panel i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn deall eu pryderon ac ymateb iddynt argraff arnaf hefyd.

Yn ogystal â'r broses hon, maent hefyd yn cynllunio rowndiau o ymweliadau. Ar ôl etholiadau'r Cyngor cyfan yn 2022, mae'r Panel yn bwriadu ymweld â phob Cyngor a chwrdd â chynifer o Gynghorwyr ag y gallant. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer grwpiau o Gynghorau yn y Gogledd, y Gorllewin a'r De, ac yn cwrdd ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, yn ogystal â chyrrff cynrychioliadol. Yn wir, yr unig grŵp a fynegodd unrhyw anfodlonrwydd â graddfa yr ymgysylltiad hwn fu'r Swyddogion Polisi o wahanol rannau o'r Gwasanaeth Sifil sy'n teimlo y byddai rhagor o ddeialog yn ddefnyddiol. Nid ydynt wedi dyfeisio ffordd effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd ychwaith, a dychwelaf at hynny ym Mhennod 8.

Mae cwestiwn i'w ofyn ynghylch effeithiolrwydd y ffordd hon o weithio o'i chymharu â dewisiadau eraill, ac archwilir hyn ym Mhennod 7.

## **Tryloywder**

Mewn papurau arholiad, arferai ddweud yn aml, "a dangoswch eich cyfrifiadau". Trwy dryloywder yn hytrach na bod yn "ddidwyll", rwyf yn golygu sut y cawsoch eich atebion.

Bwriad y Panel yw bod yn glir ynglŷn â'i ystyriaethau fel bod rhanddeiliaid yn deall sut a pham y mae wedi dod i'r safbwynt sydd ganddo. Mae'r Panel yn dibynnu ar ei ymgynghoriad eang a'r agwedd ddidwyll at sylwadau er mwyn sicrhau tryloywder yn ei benderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw rhai rhanddeiliaid arwyddocaol yn credu bod hyn wedi ei gyflawni.

Ni all rhai Cynghorau a Chynghorwyr gysoni amcan ymddangosiadol y Panel o feincnodi â chyflog canolrifol â'r canlyniadau a gyflawnwyd. Er bod yr Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at gydbwysio fforddiadwyedd â chydabyddiaeth ariannol priodol, ni allant weld sut y mae'r cydbwysedd hwn wedi ei gyflawni. Mae'r diffyg agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn golygu mai'r unig ddadleuon yw'r rhai sydd yn yr Adroddiad Blynyddol.

Roedd hefyd yn amlwg i mi yn fy nhrefodaeth â'r Panel eu bod nhw wedi cael trafferth canfod methodoleg glir y maent i gyd yn cytuno arni i sicrhau'r cydbwysedd hwn.

## **Cydnabyddiaeth ariannol teg**

Hanner yr hafaliad "teg" yw a yw Cynghorwyr yn cael eu talu'n briodol o ystyried y gwaith a wnânt, y gost bosibl o wneud hynny o ran cyfle, a'u hymrwymiad i'r gwasanaeth cyhoeddus trwy sefyll etholiad.

Trafodwyd rhai o'r materion hyn yn y bennod flaenorol trwy edrych ar wahanol lefelau talu mewn rhannau eraill o'r DU ac, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, y gwahanol ddulliau o'u cyfrifo nhw. Daeth hynny i'r casgliad nad oes ateb cywir, mae'n debyg. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yn dryloyw ynglŷn â'r tybiaethau a wnaed ynghylch pob elfen o'r broses o werthuso'r swydd ac o gyfrifo taliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r tybiaethau hynny.

Fel y trafodwyd uchod, nid yw'r Panel wedi gwneud hynny'n argyhoeddiadol ac, o ganlyniad, nid yw rhai rhanddeiliaid yn credu bod y taliadau yn adlewyrchiadau teg o werth. Yn wir, mae Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn tynnu sylw at amcan y Panel o sicrhau cysylltiad â thâl Canolrifol, a sut mae'r taliadau yn methu â chyflawni hynny ac wedi methu â thyfu ar yr un raddfa â'r cynnydd mewn taliadau i swyddogion cyhoeddus eraill. O ganlyniad i hynny, nid yw Arweinwyr Cynghorau yn enwedig, ond rhanddeiliaid eraill hefyd megis CLILC a Chynghorau yn fwy cyffredinol, yn credu bod taliadau yn adlewyrchiad teg o'r gwerth y mae Cynghorwyr yn ei gyfrannu.

Byddai'n anghywir dod i'r casgliad bod hyn yn gyfystyr â gwrthod derbynoldeb y system dalu. Fel y nodwyd eisoes, mae'n well gan bob rhanddeiliad i daliadau gael eu pennu gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol na'r dewisiadau eraill, gan dderbyn yn fras lefel y taliadau a benderfynwyd. Mae hyn yn atgyfnerthu fy marn y dylid ailedrych ar hanfodion methodoleg y Panel.

## **Tegwch i drethdalwyr**

Y prif reswm pam nad yw'r Panel wedi cyflawni ei amcan gwreiddiol o feincnodi tâl Cynghorwyr ar gyflogau canolrifol (ac uwch gyflog ar luosrifau o hynny) fu pryder ynghylch cost y cynllun. Mae'r Mesur yn rhoi cyfrifoldeb diamwys ar y Panel i ystyried fforddiadwyedd y cynllun talu. Gall hyn fod o ran y gost wirioneddol i'r trethdalwr, y gost o ran cyfle, neu'r gost o ddisodli'r cynllun o'i gymharu â gwariant ar flaenoriaethau eraill y Cyngor.

Mae'r pryder hwn wedi hollti'r Panel dros amser oherwydd ei fod wedi trafod bob blwyddyn flaenoriaethau gwrthdrawiadol y lefelau cyflog teg a'r gost gynyddol. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau

sy'n bodoli ar y pryd, weithiau mae hyn yn arwain at gynnydd mewn cyflog ac weithiau mae'n arwain at rewi'r cyflog.

Yn ymarferol, nid yw pryder na thestunau trafod y Panel yn ymwneud â fforddiadwyedd cyffredinol y cynllun, ond â chanfyddiad yr effaith o newid y gost bob blwyddyn. Pan fo anawsterau economaidd ac mae cynnydd mewn cyflogau yn isel yn gyffredinol, neu pan fo Cynghorau'n wynebu pwysau gwario a/neu gynnydd mewn galw, mae'r Panel yn tueddu i ddod i'r casgliad nad dyma'r amser gorau am godiadau cysylltiedig mewn tâl Cynghorwyr uwchben y mynegai. Yn aml, dyma sut mae'r cyfryngau a'r cyhoedd yn gweld y materion hyn, ac felly caiff derbynioldeb y newidiadau ei farnu trwy'r lens hwnnw.

Mae dadl i'r gwrthwyneb y dylai prawf fforddiadwyedd y cynllun gael ei bennu gan gyfanswm cost y taliadau fel cyfran o gyfanswm adnoddau'r Cynghorau. Yn union fel ar gyfer pennu gwerth cyflog, nid oes meincnod gwrthrychol o ran beth y dylai hynny fod. Mae ffyrdd o ddod i'r casgliad am yr hyn a allai fod yn dderbyniol. Er enghraifft, gallai'r Panel ddefnyddio profiad cymharol rhannau eraill o'r DU fel yr archwiliwyd yn y bennod ddiwethaf. Neu gall edrych ar ganlyniadau ymddygiadol costau a allai fod yn uchel mewn cysylltiad â sut mae Cynghorwyr yn cymedroli pa daliadau y maent yn eu derbyn megis y dystiolaeth gan Gynghorau Tref a Chymuned. Mae llawer o atebion posibl, ond byddwn yn argymhell bod y Panel yn datblygu meincnod fforddiadwyedd clir fel y gall ddangos bod ei benderfyniadau yn arwain at ganlyniad teg i drethdalwyr.

## **Amrywiaeth**

Un o bryderon allweddol y Panel wrth wneud penderfyniadau fu sicrhau bod ystod mor eang â phosibl o bobl yn teimlo y gallant sefyll fel Cynghorwyr. Nid yw'r amcan hwn yn glir yn y Mesur na'r Rheoliadau, ond fe'i rhannir gan yr holl randdeiliaid y siaredais â nhw, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chynghorau. Yn wir, mae ymgyrchoedd ar wahân gan yr holl bartion hyn i annog set fwy amrywiol o ymgeiswyr yn Etholiadau'r Cyngor yn 2022.

I'r perwyl hwn, mae'r Panel wedi bod yn ystyriol iawn o'r rhwystrau ariannol posibl i ymgeiswyr a'r hyn y gall ei wneud i'w goresgyn nhw. Daw'r rhain o effaith yr ymrwymiad i fod yn Gynghorydd ar ragolygon cyflogaeth mewn cysylltiad ag amser, lleihad mewn incwm, cyfrifoldebau gofalu, ansicrwydd incwm, a ffactorau eraill.

O ganlyniad, mae'r Panel wedi gwneud sawl newid gyda'r nod o oresgyn rhai o'r rhwystrau posibl hynny. Er enghraifft, gwnaethant ddileu'r cap ar daliadau gofalwyr, maent wedi bod yn ystyried sut i wneud "taliadau parasiwt" i Gynghorwyr sy'n colli eu seddi, a gwnaethant y taliad o £150 i Gynghorwyr Tref a Chymuned yn daliad gorfodol.

Darparodd CLILC rywfaint o ddata i mi i ddangos graddfa'r broblem:

Tabl 6 Cymharu'r boblogaeth Cynghorwyr â phoblogaeth Cymru

Grŵp	Cynghorwyr	Poblogaeth Cymru
Benywod	28% (29% o Aelodau'r Cabinet)	51%
Du a lleiafrif ethnig	1.8%	6.9%
Anabl	11%	18%
Pobl o dan 60 oed	53%	78%
LGBTQ+	7%	6%
Cefndir economaidd tlawd	Anhysbys	23% yn byw mewn tlogi cymharol

Mae cymunedau sylweddol yng Nghymru nas cynrychiolir yn ddigonol gan Gynghorwyr etholedig. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod rhwystrau ariannol wedi cyfrannu at yr ystumiad hwn. Mae adroddiad gan Race Alliance Wales<sup>12</sup> yn dweud y canlynol am bobl BAME: "Adroddwyd gan 27% o'r ymatebwyr bod cyllid yn rhwystr i gymryd rhan" mewn gwleidyddiaeth etholedig. Gofynnodd adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd ar "Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol: Crynodeb o'r arolwg – cynghorwyr"<sup>13</sup> i'r rhai nad oeddent yn bwriadu sefyll eto beth oedd y rheswm dros hynny. Dywedodd 7.2% ohonynt "patrwm gwaith anhyblyg" a dewisodd 5% ohonynt "cyflog/lwfans". Fodd bynnag, roedd ffactorau eraill mwy arwyddocaol megis ymddeol (25.7%), pwysau'r swyddogaeth (20.7%), a dim cefnogaeth yn y swyddogaeth (8.1%). Y categori mwyaf oedd "arall" (33.3%) ac mae'n ymddangos bod hyn wedi cynnwys ffactorau megis bwlio, amser, oedran (yn rhy hen!), a chyfleoedd eraill.

Mae'n amlwg bod gan gyllid ran i'w chwarae o ran helpu i ddod o hyd i ymgeiswyr amrywiol, ond mae ffactorau eraill, a restrir uchod, a phroses ddethol y Blaid yn mynd i fod yn fwy amlwg. Felly, mae'n bwysig i Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol weithio gydag asiantaethau eraill a rhannau perthnasol o Lywodraeth Cymru i gydlynu ei ymdrechion gyda nhw er mwyn mynd i'r afael â'r her hon. Ynghyd, byddai'n ddefnyddiol cynnal arolwg cynhwysfawr ar ôl yr etholiadau nesaf i weld a fu unrhyw symudiad cadarnhaol ac edrych eto ar y gwersi a ddysgwyd.

## Canfyddiadau ac Argymhellion

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol wedi sicrhau derbynioldeb eang gan weithredu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r holl randdeiliaid yn credu mai'r Panel yw'r ffordd

---

<sup>12</sup> [RAW-Research-paper-160121-2.pdf \(racealliance.wales\)](#)

<sup>13</sup> [Survey analysis - Councillors.pdf \(senedd.wales\)](#)

orau o bennu cyflog Cynghorwyr ac mae ganddo enw haeddiannol am fod yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau, ond yn agored wrth ymdrin â rhanddeiliaid allweddol.

Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r ffordd y mae'n dod i'w benderfyniadau mor dryloyw â phosibl, mae rhai rhanddeiliaid yn anfodlon ar degwch y canlyniadau. Nid yw'r panel wedi datblygu profion gwrthrychol ar fforddiadwyedd ychwaith.

Mae hefyd yn ceisio gwella amrywiaeth cefndiroedd Cynghorwyr oherwydd bod materion ariannol yn effeithio ar allu rhai pobl i sefyll etholiad, ond mater ehangach yw hwn y dylid mynd i'r afael ag ef ar draws yr asiantaethau cyhoeddus perthnasol.

### **Argymhelliad 1**

*Dylai'r Panel ddatblygu achos busnes ar gyfer rhaglen ymchwil a fydd yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arno i werthfawrogi yn fwy cadarn swyddogaeth y Cynghorwyr meinciau cefn ac Uwch-gynghorwyr, a datblygu profion fforddiadwyedd mwy gwrthrychol a thryloyw, a dylai'r Adran ystyried sut y gall gynnwys ymchwil o'r fath yn ei rhaglen ei hun.*

### **Argymhelliad 2**

*Dylai'r Panel ailystyried a mabwysiadu model ar gyfer cyfrifo gwerth tâl Cynghorwyr meinciau cefn ac Uwch-gynghorwyr y gellir ei ddilysu yn seiliedig ar dystiolaeth o'r rhaglen ymchwil; hefyd dylai fabwysiadu model fforddiadwyedd sy'n fwy tryloyw, er mwyn tanategu dull strategol tymor hwy o wneud ei benderfyniadau blynyddol.*



## Pennod 4 Llunio strategaeth a chyfathrebu

Roedd y bennod ddiwethaf yn trafod ffordd y mae'r Panel yn gweithio i ddod i'w benderfyniadau. Yn y cyfnod cyn dechrau'r flwyddyn, mae'n ystyried beth yw'r materion y dylai eu hystyried yn ogystal â'i brif dasg o bennu taliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Crynhoir yr ystyriaethau hyn yn y llythyr Cylch Gwaith sy'n cael ei ddrafftio ar y cyd rhwng y Panel a'r Adran ac yna mae'r Gweinidog yn ei anfon i'r Panel yn ffurfiol.

Ar ôl hynny, mae'r Panel yn gweithio allan y ffordd orau o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â'r rhaglen waith honno. Fel arfer mae'n cynnwys trafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid allweddol megis CLILC, Un Llais Cymru, cynrychiolwyr Clercod a gwasanaethau Democrataidd a Chynghorwyr. Oherwydd ei fod yn cynnal rownd reolaidd o gyfarfodydd gyda gwahanol grwpiau, mae hyn yn helpu i lunio'r agenda ar gyfer y trafodaethau hynny.

Yn dilyn y cam casglu gwybodaeth hwnnw, bydd y Panel yn trafod pa ddewisiadau ar gyfer newid y mae'n dymuno eu dilyn a bydd yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar y dewisiadau hynny. Ddiwedd yr haf, mae'n cyfarfod er mwyn mynd trwy'r penderfyniadau sy'n ffurfio'r Adroddiad Drafft. I bob pwrpas, mae'r Adroddiad Drafft yn agos at y rownd derfynol ac er ei fod yn mynd trwy broses ymgynghori ffurfiol, prin yw newidiadau ychwanegol bryd hynny.

Mae tri mater sy'n codi o'r broses hon:

- 1 Beth yw'r amcanion strategol allweddol sy'n llywio'r penderfyniadau a wneir?
- 2 Ai'r broses a fabwysiadwyd yw'r broses fwyaf effeithiol?
- 3 A ellid gwneud y gwaith o gyfathrebu'r canlyniadau yn fwy effeithiol?

### **Amcanion Strategol Allweddol**

Trafodwyd y rhan bwysicaf o hyn yn y bennod ddiwethaf. Mae argymhellion 1 a 2 yn awgrymu bod angen i'r Panel nodi sut y mae'n teimlo y gellir cyflawni canlyniadau teg i Gynghorwyr a Threthdalwyr yn rhagarweiniad i gysoni unrhyw wahaniaethau rhyngddynt. Os cânt eu gweithredu, bydd y Panel yn gallu sefydlu nodau Strategol ar gyfer y dasg allweddol o bennu taliadau Cynghorwyr.

Mae angen sefydlu fframwaith strategol fel bod gwrthdaro rhwng amcanion sy'n cystadlu yn dryloyw, ac fel y gellir egluro'n glir ar ba sail y cânt eu cyfaddawdu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion tryloywder a thegwch a drafodir uchod.

Mae'n bosibl y bydd amcanion strategol eraill y bydd Panel yn dymuno mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, ynghylch amrywiaeth y Cynghorwyr. Rwyf yn argymhell, ar gyfer pob amcan, fod y Panel yn glir ynghylch (a) sut i fesur y canlyniad a geisir ac felly sut mae llwyddiant yn edrych; (b) perthnasedd yr amcan i gwmpas y Panel; ac (c) asesiad realistig o ba gyfraniad y gall penderfyniadau'r Panel ei wneud tuag at yr amcan.

Yn fy nhrefnadaethau ag Aelodau'r Panel, roeddent yn derbyn yr angen, mewn egwyddor, am amcanion strategol clir. Fodd bynnag, gwnaethant nodi mai un anhawster ymarferol a gawsant wrth wneud hynny oedd deall y cyd-destun polisi hirdymor yr oedd llywodraeth leol yng Nghymru yn debygol o fod yn

gweithredu ynddo. Bu cryn drafodaeth ynghylch diwygiadau posibl a newidiadau i strwythur a daearyddiaeth prif gynghorau yng Nghymru, ac mae hyn wedi achosi ansicrwydd. O ystyried hynny, mae'r Panel wedi tueddu i ystyried materion yn flynyddol yn hytrach na mabwysiadu gorwel amser hirach ar gyfer cyflawni ei amcanion.

Nid yw'r ddadl honno'n fy ngwyo oddi wrth fy argymhelliad, oherwydd fy mod yn credu ei bod yn bwysig mynd i'r afael â chanfyddiadau tryloywder a thegwch. Os yw'r Panel yn mabwysiadu modelau a all asesu gwerth a fforddiadwyedd Cynghorwyr, gellid eu haddasu i unrhyw fformiwleiddiad llywodraeth leol newydd yng Nghymru pe byddai newidiadau'n digwydd. Yn y cyfamser, bydd cael amcanion strategol clir a chyhoeddedig yn cael eu croesawu ac yn ddefnyddiol i bawb o ran deall gwaith y Panel.

## **Effeithiolrwydd y broses ymgynghori**

Mae'r cwestiwn hwn hefyd yn ymwneud â ffyrdd o weithio a archwilir yn fyw ym Mhennod 7.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthyf eu bod yn gwerthfawrogi'r sylw a roddodd y Panel iddynt drwy'r cyfarfodydd niferus y maent yn eu cynnal gyda gwahanol grwpiau. Mae hynny wedi helpu i ddatblygu enw da y Panel am fod yn agored ac am weithredu heb dwyll ac mae hynny wedi arwain at gryn ymddiriedaeth yn y Panel gan rhanddeiliaid.

Fodd bynnag, fy arsylwad i oedd nad dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gasglu tystiolaeth na barn er mwyn rhoi gwybod i'r panel am ei drafodaethau polisi. Mynegodd y Panel ei hun rwystredigaeth o ran lefel yr oedd yn ymgysylltu o amgylch y materion hyn a heriodd grwpiau i ddod yn eu holau â rhagor o wybodaeth am yr hyn yr oeddent yn ei ddymuno. Er enghraifft, er i rhanddeiliaid ddweud wrth y Panel eu bod yn anhapus â lefel y taliadau a bennwyd, heriodd y Panel nhw i ymgysylltu ynghylch pa lefelau fyddai'n dderbyniol a pham.

Os bydd y Panel yn mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ac yn nodi Fframwaith Strategol cliriach, bydd angen iddo ystyried hefyd sut i gael derbyniad am ei ddull gweithredu newydd. Mae hyn yn effeithio ar y ddwy ffordd o weithio (Pennod 7) a'r ymgysylltiad â'r cyhoedd (Pennod 8). Yn fy marn i, bydd angen ychwanegu at y dull presennol os na fydd newid a fydd yn sicrhau hynny.

## **Canlyniadau Cyfathrebu**

Y dogfennau allweddol sy'n cyfleu'r hyn y mae'r Panel wedi penderfynu arno yw'r Drafft a'r Adroddiadau Terfynol.

Adroddiadau hir a chymhleth yw'r rhain ar hyn o bryd. Mae Adroddiad Blynyddol 2020<sup>14</sup> yn 80 tudalen â 15 pennod a 5 atodiad. Mae'n gynhwysfawr ymdrin â phob agwedd ar y cynlluniau ar gyfer pob un o'r gwahanol gyrff, y Fframwaith Rheoleiddiol, Penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn, newidiadau o'r blynyddoedd blaenorol, cefndir ystyriaethau'r Panel a llawer mwy. I rywun sy'n gyfarwydd iawn â gweinyddiaeth llywodraeth leol, mae wedi ei strwythuro'n dda ac er i iaith dechnegol gael ei defnyddio, fe'i heglurir yn dda fel arfer. Serch hynny, mae'n fenter frawychus i ddarllenrwydd llyeg.

---

<sup>14</sup> [annual-report-2020-to-2021.pdf \(gov.wales\)](#)

Rwyf yn deall bod yr adroddiad wedi datblygu'n organig dros nifer o flynyddoedd wrth i ofynion gwahanol gael eu himpio ar y strwythur gwreiddiol. Y sylwadau oddi wrth randdeiliaid oedd ei fod yn rhy hir a chymhleth i'w hanghenion. Mae anghenion gwahanol randdeiliaid yn wahanol ac weithiau mae gan randdeiliaid penodol wahanol anghenion at wahanol ddibenion. Argymhellaf ailwampio'r holl broses adrodd.

Ymddengys fod sawl gofyniad gwahanol o'r adroddiad:

- 1 Mae angen i'r Panel fodloni gofynion statudol y Mesur a'r rheoliadau statudol sy'n seiliedig arno.
- 2 Mae angen i'r Panel nodi ei amcanion strategol hirdymor.
- 3 Mae angen i randdeiliaid ddeall ar ba sail y gwnaed y penderfyniadau a sut y maent yn helpu i gyflawni amcanion strategol y Panel.
- 4 Mae angen i swyddogion y Cyngor ddeall sut i weithredu'r cynllun.
- 5 Mae angen i Gynghorwyr a darpar Gynghorwyr fod yn gallu deall eu hawliau.
- 6 Mae angen i'r cyhoedd a'r cyfryngau allu deall yr angen am daliadau a lefelau dangosol heb gael eu llethu gan fanylion.

Mae'n ymddangos i mi fod ceisio ateb yr holl ofynion hynny mewn un ddogfen yn dasg amhosibl i'w chyflawni yn syml. I bob pwrpas, disgrifir 8 cynllun gwahanol ar ôl ichi ystyried y systemau bandio ar gyfer Prif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chymuned, a rhai amrywiadau unigol o fewn hynny. Er bod angen i Wasanaethau Democrataidd wybod sawl swydd Uwch-gynghorwyr sydd yn eu hawdurdod a beth yw eu rhwymedigaethau i gyhoeddi gwybodaeth, mae angen i Gynghorwyr y meinciau cefn ddeall cyflog sylfaenol, yr hawl i gymorth a threuliau, a'r hawl i ddirymu.

Byddaf yn argymhell bod y ffordd y mae'r Panel yn ysgrifennu ac yn cyfleu ei drafodaethau yn ddarostyngedig i adolygiad sylfaenol. Er enghraifft, gallai'r ddogfen graidd fod yn llythyr gan y Panel at bob Cyngor, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân ac Achub a rhanddeiliaid eraill sy'n nodi dull y Panel o ymdrin â phenderfyniadau eleni gan gyfeirio at Ddogfen Strategol ar wahân ond cyhoeddedig. Wedi eu hatodi at y llythyr hwnnw, efallai y bydd penderfyniadau ffurfiol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, ac adroddiadau pwrpasol sy'n berthnasol i'r Cyngor hwnnw – ar gyfer Swyddogion a Chlercod y Cyngor, ar gyfer defnydd gan Gynghorwyr ac i'w defnyddio gyda'r Cyhoedd ar wefannau'r Cyngor. Gallai'r Panel weithio gyda Rhanddeiliaid i gynhyrchu ffurflenni gweinyddol safonol sy'n helpu gyda hawliadau Cynghorwyr yn ogystal â chrynodeb a dogfennaeth taliadau at ddibenion ffurflenni a chyhoeddiadau. Ni fwriedir i'r awgrymiadau hyn fod yn dempled, ond yn fwy o hwb ar gyfer y gwaith y mae angen i'r Panel a'i Ysgrifenyddiaeth ei ystyried yn ei wneud.

### **Argymhelliad 3**

***Mae'r Panel yn ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cyfleu ei benderfyniadau blynyddol fel ei fod yn llunio dogfennau sy'n diwallu anghenion gwahanol randdeiliaid yn fwy uniongyrchol, gan barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Dylai'r ddogfen ddiwygiedig gynnwys Strategaeth a gyhoeddwyd ar wahân sy'n cadarnhau amcanion tymor hwy y Panel.***

## Pennod 5 Adolygiad o Gwmpas y Panel

Mae'r Cylch Gwaith yn gofyn i'r adolygiad:

“Ystyried yr ystod lawn o swyddogaethau statudol a rheoleiddiol a gyflawnir gan y Panel ar hyn o bryd er mwyn cadarnhau a ydynt yn parhau i fod yn swyddogaethau cywir neu a oes angen eu newid” ac

“Ystyried a oes angen newid rhestr y cyrff a gwmpesir ar hyn o bryd gan waith y Panel”

Fel yr amlinellwyd eisoes, mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gyflog sylfaenol a thâl ar gyfer swyddogaethau Uwch-gynghorwyr ar gyfer Prif Gynghorau, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am daliadau eraill i'r Cynghorwyr a'r Aelodau hyn gan gynnwys cymorth cyffredinol, treuliau, cynhaliaeth a theithio, costau gofal, salwch, ac absenoldeb teuluol. Maent yn nodi rhwymedigaethau ar Gynghorau i wneud ffurflenni ac i gyhoeddi gwybodaeth am y taliadau hyn. Mae ganddynt gyfrifoldebau hefyd dros wneud argymhellion ynghylch cyflog Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Mae'r bennod yn ystyried ai dyma'r cwmpas cywir mewn pum adran:

- 1 Dim Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- 2 Y math o gyrff i'w cynnwys
- 3 Taliadau a chynlluniau cyfredol
- 4 Cynlluniau eraill i'w hystyried
- 5 Tâl swyddogion

### **Dewis arall i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'n bosibl dychmygu dull nad oes ganddo Banel Annibynnol parhaus. I bob pwrpas, dyma'r ffordd y'i rheolir yn yr Alban. Roedd ganddynt bwyllgor annibynnol (SLARC) a roddodd gyngor i lywodraeth yr Alban ynghylch sut i sefydlu ac yna mynegeoio cynllun taliadau. Erbyn hyn, i bob pwrpas, mae'r cynllun a sefydlwyd yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn gyda mynegeoio i gyflogau'r Sector Cyhoeddus ar waith. Mae Pwyllgor yn y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau bob blwyddyn, ond nid oes unrhyw ymgynghoriad na dadl amlwg, ac mae'n ymddangos ei fod yn cael ei dderbyn yn dda ac nad yw'n ddadleuol.

Ni chanfûm unrhyw frwdfrydedd na chefnogaeth i'r dull hwnnw ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru, ond serch hynny, dylid ei werthuso. I gefnogi newid o'r fath, byddai'n symleiddio'r broses flynyddol ac yn dileu'r angen am y Panel a'i gefnogaeth. Fodd bynnag, mae hefyd yn dileu gallu rhanddeiliaid i lobïo ac i ddylanwadu ar y cynllun a'r hyblygrwydd i addasu'r cynllun i amgylchiadau sy'n newid, boed hynny'n cael ei lywio gan newidiadau ym mholisi'r llywodraeth neu newidiadau yn amcanion y cynllun. Felly, rwyf yn dod i'r casgliad mai'r ffordd orau o benderfynu ar daliadau i Gynghorwyr yng Nghymru yw trwy Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n parhau.

## Mathau o gyrff

Y man cychwyn yw a ddylid talu Cynghorwyr o gwbl? Mae tybiaeth nas dywedir y dylent gael eu talu, ond tybiaeth yw hynny. Serch hynny, mae consensws y dylai pobl sy'n cael eu hethol yn Gynghorwyr gael eu digolledu am yr amser a'r ymdrech y maent yn eu rhoi i'r swyddogaeth ac unrhyw gostau y maent yn eu hysgwyddo. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw oherwydd eu bod yn ychwanegu gwerth ac y dylid cydnabod hynny. Ystyrir ei bod yn bwysig hefyd na ddylai pobl gael eu gwahardd rhag sefyll mewn etholiad oherwydd y posibilrwydd o golli enillion a chyni. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod Cynghorwyr yn cyfrannu gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

Nid ystyriaeth ddibwys yw'r cyfaddawd hwn i Gynghorwyr Tref a Chymuned. Mae'n bosibl bod dros 80% o Gynghorwyr Tref a Chymuned yn gwrthod y taliad gorfodol y mae'r Panel yn ei roi iddynt, ac mae tystiolaeth y byddai'n well gan lawer o Gynghorau o'r fath allu optio i mewn i unrhyw gynllun. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd fod nifer sylweddol o Gynghorau o'r fath, hyd yn oed rhai llai, yn gwerthfawrogi'r cynllun ac yn ei ddefnyddio. Felly, ni fyddai'n iawn dweud y dylid eu heithrio o gwmpas Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond dylai'r Panel ystyried y ffordd orau o ddarparu ar gyfer y gwahaniaeth safbwyntiau eang hwn.

Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol â'r prif ddiben o bennu cyflog Cynghorwyr mewn Prif Gynghorau. Fel y gwelwyd eisoes, mae cefnogaeth eang i waith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wrth iddo gyflawni'r gwaith hwnnw ac nid oes cefnogaeth i fodolau eraill – nac ychwaith i'r dull a gymerwyd mewn manau eraill yn y DU, ac nid oedd neb yn awgrymu dull newydd. Felly, dylent hefyd aros yn berthnasol.

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi eu cynnwys oherwydd bod Cynghorwyr yn cael eu penodi i'r cyrff hynny gan Gynghorau gan eu bod yn Gynghorwyr, ac ystyriwyd yn briodol y dylai unrhyw daliadau a dderbynnir trwy'r Aelodaeth honno gael eu rheoleiddio yn yr un modd â thaliadau eraill a wneir i Gynghorwyr. Mae cymryd safbwynt cyfannol am daliadau i Gynghorwyr yn y swyddogaeth honno yn ymddangos yn synhwyrol. O ganlyniad, mae Aelodau penodedig o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd yn cael cydnabyddiaeth ariannol oherwydd penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nid oedd gwrthwynebiad i'r dull hwn, ac nid ystyriodd arweinwyr Polisi ei fod yn rhwystr i recriwtio pobl nad oeddent yn Gynghorwyr i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'n ymddangos yn synhwyrol cadw hyn yn berthnasol.

A yw'r egwyddor y dylai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol reoli taliadau i Gynghorwyr a benodir i gyrff megis Cynghorwyr yn arwain at gynnwys cyrff eraill perthnasol? Mae amrywiaeth o bartneriaethau cyhoeddus newydd, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff Cyngor ar y cyd, yn cael eu sefydlu y mae Cynghorwyr yn cael eu penodi'n Gynghorwyr arnynt. Ymddengys, ar y cyfan, fod y Cynghorwyr a benodir yn cyflawni rhan o'u swyddogaeth o fod yn Uwch-gynghorydd ac nad yw penodedigion nad ydynt yn Gynghorwyr yn cael cydnabyddiaeth ariannol am eu swyddogaeth ar gyrff o'r fath. Felly, nid oes angen ehangu'r cwmpas i gynnwys y cyrff hyn ar unwaith, ond mae hyn yn rhywbeth y dylai'r Adran barhau i'w adolygu wrth i'r seilwaith cyflenwi cyhoeddus cyfoethocach hwn ddatblygu.

Yn olaf, mae cyrff cyhoeddus a lled-gyhoeddus eraill i'w hystyried, megis Byrddau Ymddiriedolaethau Iechyd, Is-gangellorion Prifysgolion, Byrddau Cymdeithasau Tai ac ati a godwyd mewn trafodaethau â rhanddeiliaid. Nid oedd gan rhanddeiliaid unrhyw awydd i ehangu cwmpas Panel Annibynnol Cymru ar

Gydnabyddiaeth Ariannol i gynnwys cyrff o'r fath. Mae'n ymddangos i mi fod rhwystrau sylweddol i ymestyn y cwmpas fel hyn oherwydd y ffordd y mae'r Panel wedi ei sefydlu ar hyn o bryd. Mae cyddestun cydnabyddiaeth ariannol cyrff o'r fath yn wahanol iawn i'r hyn ar gyfer Cynghorwyr a byddai angen i'r Panel ehangu ei arbenigedd a'i adnoddau er mwyn gallu ymgymryd â thasg o'r fath. Nid oes synergedd amlwg rhwng ystyried y swyddogaethau ehangach hyn a swyddogaethau Cynghorwyr. Mae dulliau effeithiol o bennu cydnabyddiaeth ariannol y swyddogaethau hynny eisoes ac nid oes unrhyw fudd amlwg o'u newid nhw, ond mae risgiau sylweddol o darfu oherwydd newid. Felly, ni welaf fod angen ehangu cwmpas y Panel i gwmpasu swyddogaethau o'r fath.

## Taliadau a chynlluniau cyfredol

A oes unrhyw un o'r trefniadau presennol y dylid eu heithrio o gwmpas y Panel? Mae'r cynlluniau craidd – cyflog sylfaenol, cyflog Uwch-gynghorwyr, teithio a chynhaliaeth, cost gofal, salwch, absenoldeb teuluol – i gyd yn elfennau sy'n gyffredin i fwyafrif y cynlluniau talu Cynghorwyr ledled y DU ac maent yn adlewyrchu arferion Adnoddau Dynol modern. Mae'n gwneud synnwyr bod y rhain i gyd yn bethau y mae'r Panel yn mynd i'r afael â nhw ac yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

Cododd rhai rhanddeiliaid safbwynt bod y Panel wedi dod yn "rhy ragnodol" ynghylch rhai elfennau o'r cynlluniau hyn. Er enghraifft, nodi mewn peth manylder pa fath o gymorth y dylai Cynghorau ei ddarparu yn ogystal â'r hyn a gwmpesir gan y cyflog sylfaenol. Awgrymodd Cynghorau wrthyf y gellid cael rhagor o hyblygrwydd lleol wrth benderfynu ar yr hyn a ddarperir o'i gymharu â'r dull presennol. Mae'r Panel o'r farn bod angen iddo fod yn glir ac yn ddiamwys ynglŷn â'r safonau gofynnol ac mewn ymateb i gwestiynau gan Gynghorau a Chynghorwyr sy'n gofyn am eglurhad. Nid ymddengys i mi mai mater sy'n ymwneud â chwmpas yw hyn, ond credaf ei fod yn rhywbeth y mae angen i'r Panel ei ystyried wrth iddo wneud ei ystyriaethau.

Ystyriais hefyd y dull rhagnodol cymharol o bennu uwch gyflogau o'i gymharu â'r arferion yn rhannau eraill o'r DU. Gan adael Lloegr lle nad oes rheolau cenedlaethol o'r neilltu, yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gadewir lefelau cyflog Uwch-gynghorwyr i Gynghorau benderfynu arnynt i raddau mwy helaeth nag yng Nghymru, yn ddarostyngedig ar gyfyngiadau ar gyfanswm eu gwerth a'u lefel uchaf. Ym mhob un o'r systemau "rheoleiddiedig", cyfyngir ar nifer yr uwch-swyddogaethau hefyd. Nid oedd gan Brif Gynghorau unrhyw barodrwydd i symud i'r system mewn gwledydd eraill ac yn wir roedd cefnogaeth i'r dull presennol ble mae'r Panel yn pennu'r tâl am wahanol swyddogaethau yn hytrach na phennu terfyn na chaiff cyfanswm y gost ragori arno. Os yw'r Panel yn dymuno gwneud newid ar y trywydd hwn, mae'n debyg bod ganddo'r pwerau i wneud hynny eisoes, felly unwaith eto, nid oes angen newid cwmpas.

Mae'r Panel yn nodi'r gofynion ar gyfer casglu, dychwelyd a chyhoeddi data, ac mae hwn yn fater pwysig er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch taliadau Cynghorwyr i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae cryn bryder ynghylch sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cydymffurfio. Ar ddiwedd mis Mai, nid yw bron i draean ohonynt wedi anfon ffurflenni i'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer 2020/21 yn ôl y gofyn. Treuliodd y Panel gryn amser ac adnoddau yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw, gan wneud gwaith dilyn a cheisio cael gafael arnynt. Yn fwy amlwg, cyrff rheoleiddio eraill, megis Archwilio Cymru, sy'n gwirio bod Cynghorau yn cydymffurfio ag ystod eang o ddyletswyddau statudol a rheoleiddiol a ddylai fod yn gyfrifol am hyn. Er nad yw'n newid cwmpas o reidrwydd, mae'n rhywbeth efallai y bydd Panel ddymuno ei drafod â'r Adran a phartion eraill.

## Cynlluniau eraill i'w hystyried

Mae'r fframwaith Rheoleiddio y mae'r Panel yn gwneud ei benderfyniadau drwyddo yn eang ac mae'n rhoi cryn le i fod yn arloesol wrth fynd i'r afael â'i dasgau allweddol. Mae'r Panel wedi defnyddio ei ddychymyg a'i bwerau i ehangu'r meysydd a gwmpaswyd ganddo. Mae rhai materion y mae'n ymdrin â nhw ac a godwyd gan randdeiliaid sy'n ymddangos yn anodd eu ffitio o fewn y pwerau presennol, ac edrychaf hyn yn yr adran hon.

### Taliadau "parasiwt"

Efallai mai'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain, a'r mwyaf taer mewn rhai ffyrdd, yw'r cwestiwn o "daliadau parasiwt", neu daliadau megis taliadau diswyddo i Gynghorwyr sy'n colli eu sedd adeg etholiad. Gwneir taliadau tebyg i swyddogion etholedig eraill megis Aelodau o'r Senedd ac ASau. Nid wyf yn mynegi safbwynt ynghylch a ddylid eu gwneud ai peidio, ond mae'n bosibl mai mater sy'n ymwneud â chwmpas yw a "ellir" eu gwneud ai peidio. Mae'r Panel o'r farn, oherwydd y byddai'r taliadau hyn, yn ôl eu diffiniad, yn cael eu gwneud i bobl nad ydynt yn Gynghorwyr (h.y. ddim mwyach), maent y tu hwnt i gwmpas eu pwerau.

Mae'n bosibl nad yw hyn yn wir. Mae dau ddewis y gellid eu harchwilio a chael cyngor technegol a chyfreithiol arnynt. Yn gyntaf, mae Cynghorwyr nad ydynt yn cael eu haillethol yn parhau i fod yn Gynghorwyr am gyfnod byr (pedwar diwrnod yr wy'n credu) ar ôl yr etholiad. Efallai y bydd modd llunio cynllun taliadau ar gyfer y Cynghorwyr y mae'r pedwar diwrnod hyn yn berthnasol iddynt. Efallai mai dewis arall fyddai gwneud taliadau ychwanegol i bob Cynghorydd sy'n tystio y bydd yn sefyll i gael ei ailethol y flwyddyn cyn yr etholiad, ar yr amod, pe bai'n cael ei ailethol y byddai'r swm hwn yn cael ei ddiwyddo o'r cyflog sylfaenol am y flwyddyn sy'n dechrau pan gaiff ei ailethol. Fel hyn, byddai Cynghorwyr a drechwyd yn cael "taliad parasiwt".

Os, ar ôl cael cyngor manwl, nad yw'r dewisiadau hyn yn ddichonadwy, yna mae angen i'r Adran ystyried a yw'n dymuno ehangu cwmpas y Panel, er ei bod yn debygol y bydd angen deddfwriaeth Sylfaenol ar gyfer hyn. Fodd bynnag, pe byddai'n ehangu cwmpas y Panel, byddai hefyd yn gwneud datganiad polisi clir ei fod yn cefnogi taliadau o'r fath. Oherwydd hynny, nid fy lle i yw argymhell y newid hwnnw, ond yn hytrach, rwyf yn argymhell bod yr Adran yn archwilio'r materion ac yn penderfynu a yw'n dymuno galluogi'r taliadau hyn ai peidio.

### Perfformiad a Hyfforddiant

Un mater mwy eang a godwyd gyda mi gan rai rhanddeiliaid oedd gwneud taliadau'n amodol ar ryw elfen o berfformiad. Y pryder wrth fôn y cais hwn oedd bod rhai Cynghorwyr wedi derbyn taliad, boed yn Gyflog Sylfaenol, yn Uwch-swyddogaeth neu'n Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub ond na wnaethant gyflawni eu rhwymedigaethau mewn cysylltiad â'r taliadau hynny. Roedd un dimensiwn arbennig yn ymwneud â methiant i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol, ond roedd hefyd yn berthnasol i berfformiad yn fwy cyffredinol.

Yn amlwg, mater i grwpiau gwleidyddol a Chynghorau eu hunain yn bennaf oll yw perfformiad Cynghorwyr, a bydd ganddynt amrywiaeth o ddulliau ar gyfer rheoli perfformiad Cynghorwyr. Mae'r mwyafrif llethol o Gynghorwyr yn gweithio'n galed ac yn ddi-gŵyn a chânt eu siomi gan yr ychydig nad

ydynt yn gwneud hynny. Serch hynny, mae canfyddiad y cyhoedd o Gynghorwyr sy'n cael tâl sylweddol heb gyflawni eu dyletswyddau yn ei gwneud yn anos cyfiawnhau lefelau tecach o dâl, ac felly mae'n bosibl y byddai ffordd o reoli perfformiad trwy gymedroli taliadau yn cael ei chrosawu.

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch y syniad hwn. Roedd cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Democrataidd yn frwdfrydig ynghylch y gallu i atal rhai taliadau yn amodol ar ymgymryd â hyfforddiant gorfodol. Roedd eraill yn fwy amheus ac yn codi problemau ynghylch sut y gellid gwneud hyn yn deg ac yn gyson.

Y cwestiwn ar gyfer yr adroddiad hwn yw ai mater o gwmpas yw hyn. Mae'n debyg y gallai cynllun sydd wedi ei gynllunio'n ofalus fod yn bosibl o fewn pwerau presennol y Panel. Y cam cyntaf felly fyddai i'r Panel gynnal gwaith ymgynghori ac ystyried a fyddai hyn yn estyniad dymunol i'r cynlluniau cyfredol.

### **Materion treth a budd-daliadau**

Y mater arall a ymddangosodd yn fy nhrafodaethau â rhanddeiliaid oedd y gwaith o drin taliadau treth a budd-daliadau i Gynghorwyr, yn enwedig y taliad gorfodol o £150 i bob Cynghorydd Tref a Chymuned. Roedd pryderon ynghylch baich gweinyddol cynlluniau Talu Wrth Ennill ar Gynghorau bach, a'r effaith annisgwyl ar incwm yn enwedig i'r rhai hynny sy'n cael budd-daliadau.

Mae statws treth y taliadau hyn allan o gwmpas y Panel, ac mater i CThEM ydyw. Mater i'r Panel yw ystyried sut y disgrifir rhai o'r taliadau hyn ac yn fwy cyffredinol yr angen i'r Panel fod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol rhai o'i benderfyniadau. Mae hyn yn ymwneud â'r cyngor i Gynghorwyr sy'n dod gyda'r penderfyniadau, oherwydd nid wyf yn credu y dylai'r ystyriaethau hyn fod o'r pwys mwyaf wrth i'r Panel drafod. Nid mater i gwmpas y Panel ydyw.

### **Cyflog swyddogion**

Ymateb gan y Senedd a'r Llywodraeth i rai achosion proffil uchel oedd ehangu cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol er mwyn ystyried cyflogau'r holl Brif Swyddogion yn gyntaf ac yna Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub. Ymddengys mai'r bwriad oedd gweithio'n fwy fel rhwystr nag archwiliad gweithredol oherwydd nad oes gan y Panel yr arbenigedd, y gefnogaeth na'r gallu i reoli ymchwiliadau manwl ar unrhyw raddfa. Mae dileu'r cyfrifoldeb o adolygu cyflogau Prif Swyddogion wedi lleihau'n sylweddol y baich posibl ar y Panel, gan wneud y sefyllfa'n fwy hylaw.

Mae gwendid ymddangosiadol yn y rheoliadau presennol. Y bwriad yw cynnwys cyflog y Prif Swyddogion Tân, ond mae'r rheoliad yn diffinio'r swyddogion sydd wedi eu cynnwys fel "Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig". Nid "Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig" yw'r Prif Swyddog Tân yn ddeddfwriaethol ac felly mae wedi ei eithrio o gwmpas y Rheoliadau. Byddai newid y diffiniad yn galluogi hyn i gael ei gywiro.

Trafodais y ddarpariaeth hon â'r Panel a rhanddeiliaid. Credai cynghorau y dylent reoli cyflog eu staff ac nid oedd gan y Panel unrhyw frwdfrydedd dros y swyddogaeth a neilltuwyd iddo. Fodd bynnag, nid ystyriwyd yn feichus gan y Panel nac yn rhy ymwithiol gan Gynghorau, felly mae'r status quo yn dderbyniol. Serch hynny, nid yw'n cyd-fynd yn dda â chylch gwaith y Panel yn y tymor hwy. Argymhellaf fod yr Adran yn ystyried dileu'r rhwymedigaeth hon o gwmpas y Panel.



## Canfyddiadau ac Argymhellion

I Gymru, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yw'r ffordd orau o bennu taliadau i Gynghorwyr. Mae cwmpas y Panel yn gywir ar y cyfan. Mae'n briodol bod taliadau i Gynghorwyr ac Aelodau o Brif Gynghorau, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu cynnwys yng nghwmpas cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Dylai'r cynllun talu gynnwys cyflog sylfaenol ac ar gyfer uwch-swyddogaethau yn ogystal â chwmpasu cymorth, treuliau, costau teithio a chynhaliaeth, cost gofal, absenoldeb teuluol ac absenoldeb oherwydd salwch. Ni ddylid ymestyn cylch gwaith y Panel i gynnwys aelodau o gyrff eraill.

Mae'n debyg bod rhai materion y mae'r Panel yn ymdrin â nhw yn berthnasol. Dylai benderfynu ar ei bolisi ar y materion, cael cyngor manwl ac, os oes angen, gofyn i'r Adran ystyried newid y cwmpas. Mae triniaeth treth a budd-daliadau y taliadau y tu hwnt i'r cwmpas a bydd yn parhau i fod felly. Dylai'r Panel ystyried goblygiadau treth a budd-daliadau y penderfyniadau y mae'n eu gwneud, gan sicrhau cyngor priodol i Gynghorwyr a Chynghorau. Dylai'r Adran ystyried dileu'r gwaith o reoli cyflogau Prif Weithredwyr o'r cwmpas, ond os bydd yn aros, dylid sicrhau bod diffiniadau'n cynnwys y Prif Swyddogion Tân.

## Argymhelliad 4

***Mae Cwmpas presennol y Panel bron yn gwbl gywir. Dylai'r Adran ystyried dileu'r gwaith o reoli cyflog Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig o'r cwmpas, ond os bydd yn aros, dylid newid y diffiniad er mwyn cynnwys y Prif Swyddog Tân. Dylai'r gwaith o sicrhau cydymffurfio â chyhoeddi gael ei drosglwyddo i gyrff sy'n ymwneud â chydymffurfio statudol a rheoleiddiol Cynghorau. Dylai'r Panel gymryd cyngor cyfreithiol priodol i weld a yw'r estyniadau i'r cynllun talu a ystyrir o fewn ei bwerau, a phan nad ydynt ond mae'n dymuno eu gweithredu, dylid gofyn i'r Adran ystyried newid y cwmpas.***

## Pennod 6 Perthynas â Rhanddeiliaid a'u barn am y Panel

Mae Cylch Gwaith yr adolygiad hwn yn cynnwys tri amcan sy'n ymwneud â rhanddeiliaid:

“Ystyried i ba raddau y mae strategaeth y Panel yn glir i'r rhai y tu allan i'r corff”

“Archwilio sut mae'r Panel yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid allweddol”

“Archwilio'r ffordd y mae rhanddeiliaid allweddol yn edrych ar waith y Panel”.

Mae rhai o'r materion a godwyd gan yr amcanion hyn eisoes wedi eu trafod. Archwiliwyd y pwynt cyntaf yn fanwl ym mhenodau 3 a 4, ac nid edrychir arno ymhellach yma. Gwnaed arsylwadau am yr ail a'r trydydd amcan hefyd drwy gydol yr adroddiad, ond mae'n gwneud synnwyr crynhoi fy nghanfyddiadau mewn un lle, yn y bennod hon.

Mae'r Panel yn ymgysylltu'n weithredol â'r holl rhanddeiliaid allweddol. Bob blwyddyn mae'n cael cyfarfodydd gyda chyrrff cynrychioliadol allweddol megis CLILC, Un Llais Cymru, a Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae hefyd yn trefnu cyfarfodydd yng ngogledd, gorllewin a de Cymru er mwyn cwrdd â Phenaethiaid Gwasanaethau Democraidd a Chadeiryddion Pwyllgorau Gwasanaethau Democraidd perthnasol, a gwahoddir pob Cyngor iddynt. Trwy nawdd CLILC, mae wedi cael cyfarfodydd gydag Arweinwyr Cynghorau. Mae'n cwrdd hefyd â chynrychiolwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'n bwriadu cwrdd â phob un o'r Prif Gynghorau yn 2022, ar ôl yr etholiadau lleol. Mae'n cael cyfarfodydd a sefydlir gyda Chynghorau Tref a Chymuned hefyd.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi eu strwythuro er mwyn gallu ymdrin â'r rhaglen waith a bennwyd ar gyfer y flwyddyn, ond maent hefyd yn darparu dulliau i Gynghorau a'u cynrychiolwyr ddod i adnabod y Panel a'r cyfle i godi unrhyw faterion sy'n peri pryder iddynt. O ganlyniad i hynny, mae'r Panel wedi sefydlu perthynas waith dda gyda rhanddeiliaid allweddol. Mewn sylwadau i mi, mynegodd rhanddeiliaid hyder y gallent godi materion yn effeithiol â'r Panel, ac roeddent yn ymddiried y byddai pryderon yn cael eu hystyried yn briodol. Mae gwerthfawrogiad gwirioneddol bod y Panel yn mynd allan o'i ffordd i deithio i wahanol rannau o Gymru i gwrdd â nhw wyneb yn wyneb.

Roedd unigolion yn gallu rhoi enghreifftiau i mi o amseroedd pan roeddent wedi codi materion gweinyddol (yn hwyr yn y broses weithio) ac roedd y Panel wedi ymateb ac gwneud newidiadau o ganlyniad i hynny. Roedd rhai materion eraill, megis ymdrin â thaliadau treth i Gynghorwyr Tref a Chymuned, a oedd y tu hwnt i allu'r Panel i ymdrin â nhw. Serch hynny, roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi eu bod nhw'n gallu codi'r materion hyn ac y byddai'r Panel yn rhoi ystyriaeth briodol iddynt ac yn eu codi ag awdurdodau eraill fel y bo'n briodol. Nid oedd Arweinwyr Cynghorau yn hapus â lefel y taliadau yr oeddent yn eu cael, ond roeddent yn barod i weithio gyda'r Panel i nodi'r ffordd orau symud y mater rhagddo.

Er bod hyn yn gadarnhaol, mae rhai problemau. Mae'r cyfarfodydd mewn gwahanol rannau o Gymru yn ddwys iawn o ran adnoddau i'r Panel yn ogystal â Swyddogion a Chynghorwyr sydd â theithiau hir i gyrraedd y gwahanol leoliadau, hyd yn oed pan maent yn eu rhan nhw o Gymru. Un o ganlyniadau cadarnhaol fideogynadledda a wnaed yn angenrheidiol gan bandemig COVID-19 yw bod y cyfarfodydd rhanbarthol hyn wedi bod yn haws i bawb gymryd rhan, gan arbed amser a chostau. Mae'r cyfarfodydd

hyn hefyd yn gallu rheoli'r cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg mewn modd di-dor. Roedd y sylwadau a gefais yn awgrymu y dylai'r ffordd hon o weithio barhau.

Yr un grŵp rhanddeiliaid a gododd bryderon oedd yr arweinwyr Polisi â Gwasanaeth Sifil Cymru. Teimlai bawb a oedd yn gyfrifol am Bolisi Partneriaethau, y gwasanaethau Tân a Pharciau Cenedlaethol y byddent yn elwa o gael rhagor o gyswllt a chyfathrebu. Mae meysydd sy'n gorgyffwrdd rhwng gwaith y Panel ac amcanion polisi gwahanol rannau o'r Adran a fyddai'n elwa o ddeialog a chydweithio agosach. Er na ddylai hyn effeithio ar annibyniaeth y Panel, mae'n ddefnyddiol serch hynny i'r Panel ddeall datblygiadau polisi mewn mannau eraill sy'n effeithio ar lywodraeth leol, ac i arweinwyr polisi wybod sut mae'r Panel yn datblygu ei safbwyntiau.

Un anfantais o gyfathrebu ac ymgysylltu yn bennaf trwy gyfarfodydd yw na all y Panel fod yn hyderus bob amser ei fod yn clywed llais gwirioneddol ei randdeiliaid. Yn nodweddiadol, dim ond lleiafrif o wahoddedigion sy'n dod i'r cyfarfodydd, hyd yn oed pan fônt yn cael eu cynnal trwy gynhadledd fideo. Mae hyn yn arbennig o wir am gyfarfodydd gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Yn aml, yr un bobl sy'n dod i'r cyfarfodydd. Mae'r Panel yn ymwybodol o'r angen i ategu'r wybodaeth a gesglir o'r cyfarfodydd hyn â ffynonellau gwybodaeth eraill.

## **Canfyddiadau**

Mae'r Panel yn datblygu ac yn cynnal ei berthynas â rhanddeiliaid trwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae rhanddeiliaid yn hoffi'r ffordd hon o weithio ac maent yn teimlo y gallant godi materion â'r Panel gan fod yn hyderus y bydd y Panel yn eu hystyried yn briodol.

Mae fideogynadleda wedi bod yn ffordd effeithiol o reoli cyfarfodydd ac fe'i cefnogir gan randdeiliaid.

Er bod rhai rhanddeiliaid yn anhapus â'r holl benderfyniadau a wneir, mae'n llawer gwell ganddynt fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan banel annibynnol yn hytrach na thrwy ddulliau eraill. Byddent yn ceisio cael rhagor o eglurder ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau (gweler Penodau 3 a 4).

Mae gweithio'n bennaf drwy gyfarfodydd yn arwain at ymgysylltu cyfyngedig â phob aelod o rai rhanddeiliaid allweddol ac mae angen ategu hyn â ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.

Byddai arweinwyr polisi yng Ngwasanaeth Sifil Cymru y mae ganddynt gyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd â gwaith y Panel yn croesawu rhagor o ymgysylltu er mwyn helpu i gyfochri amcanion polisi.

## Pennod 7 Adnoddau a ffyrdd o weithio

Mae'r Cylch Gwaith yn cynnwys yr amcanion canlynol:

“Archwilio a yw'r trefniadau cymorth gweinyddol cyfredol yn parhau i fod yn briodol neu a fyddai trefniadau eraill o fudd i waith y Panel”

“Ystyried a yw nifer aelodau y Panel yn briodol”

Yn y swyddogaeth gyffredinol a roddwyd i'r Adolygydd, roedd gofyniad i edrych ar werth am arian ac a oedd angen unrhyw newidiadau i swyddogaeth a gweithrediadau'r Panel. Mae'r Bennod hon yn archwilio'r holl faterion hyn. Mae hefyd yn ystyried rhai materion cysylltiedig a drafodwyd mewn penodau cynharach.

Mae llawer o nodweddion cadarnhaol o ran y ffordd y trefnir y Panel. Mae'r holl aelodau'n ymroddedig ac yn gweithio'n galed. Mae'r disgrifiad o'r swydd ar gyfer aelodau'r Panel yn nodi ymrwymiad amser tebygol o 12 diwrnod y flwyddyn, pan fo'r amser ymarferol yn debygol ei fod o leiaf ddwywaith hynny. Sefydliad bach cryno ydyw. Mae pum Aelod o'r Panel, gan gynnwys y Cadeirydd. Darperir cymorth ysgrifenyddol gan Adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (yr Adran). Mae un swyddog llawn amser sy'n helpu gyda'r holl dasgau gweinyddol hanfodol, ac mae'r hyn sy'n cyfateb i swydd amser llawn arall ar gael ar gyfer cymorth ynghyd â chymorth gan Uwch-swyddogion yn yr Adran. Yn ogystal â'r cymorth hwn, mae gan y Panel gyllideb flynyddol o £50,000 a ddefnyddir yn bennaf i ddiogolledu'r Panel am ei amser, am logi lleoliadau, ac am gostau teithio a chynhaliadau.

Mae cael ei gynnal gan yr Adran yn golygu y gall y Panel ddefnyddio ei systemau gweinyddol ar gyfer y gyflogres, taliadau, ac ati. Nid yw'n cynhyrchu cyfrifon blynyddol ac nid oes angen swyddogaeth archwilio mewnol nac allanol arno, ac felly mae'n weladwy mai gwaith rheoleiddio ysgafn ydyw. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif. Mae wedi datblygu cofrestr risg, mae'n cynhyrchu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn, cynhelir arfarniadau a chaiff yr anghenion hyfforddi eu hasesu a'u diwallu.

Cyn pandemig COVID-19, yn nodweddiadol, roedd y Panel yn arfer cwrdd unwaith y mis am ddiwrnod cyfan. Cynhelid cyfarfodydd rheolaidd yng Nghaerdydd, ond arferai'r Panel gwrdd hefyd mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid o wahanol ardaloedd. O bryd i'w gilydd, cyfunwyd cyfarfodydd y Panel â chyfarfodydd ymgysylltu. Mae'n bosibl y byddai hyn wedi gofyn am lety dros nos. Ers y pandemig a chyfyngiadau amrywiol ar gyfarfodydd yn bersonol, mae'r Panel wedi symud i gwrdd ar ffurf rhithwir, a gartref, fel y rhan fwyaf o'r Genedl.

Mae'r strwythur hwn wedi arwain at ymestyn y Panel i gyflawni ei waith. Mae'r rhaglen ymgysylltu helaeth ar ben cyfarfodydd misol yn golygu bod yr ymrwymiad amser i aelodau'r Panel yn llawer mwy na'r hyn a hysbysebir. Mae'r cymorth gweinyddol darbodus yn golygu hefyd mai dim ond ychydig o gymorth polisi ymarferol sydd ganddo ac nad yw'n gallu cael gafael ar sgiliau na chyngor technegol. Mae'r Aelodau'n tueddu i gynnal unrhyw waith ymchwil ac ysgrifennu mwyafrif y papurau y maent yn eu hystyried ar eu pennau eu hunain. Fy arsylwad i o bapurau oedd bod ganddynt ddiffyg ffocws o bryd i'w gilydd (diben clir, argymhellion a phwyntiau penderfynu), a bod agendâu a'r rhaglen waith yn ailadroddus yn aml oherwydd bod y Panel yn ei chael hi'n anodd gyda'i adnoddau ar gyfer cymeradwyo

materion. Mae'r Panel yn ymwneud â materion technegol (megis trin taliadau treth, ymholiadau mewn cysylltiad â dehongli'r gyfraith) nad oes disgwyl iddo fod â'r arbenigedd i'w hateb ac nad oes ganddo'r arbenigedd technegol angenrheidiol i'w ddefnyddio.

Gwaethygydd materion capasiti gan waith cynllunio olyniaeth a recriwtio y Panel. Mae aelodau'r panel yn teimlo'n gryf iawn nad ymdriniwyd â hyn yn dda dros gyfnod. Mae'r Adran wedi cydnabod y pryderon ac mae'n ymddangos bod ymrwymiad i gynllunio newidiadau yn y dyfodol yn fwy cydweithredol ac i ddatrys y materion. Mae rhywun yn cysylltu â'r ymrwymiad amser a hysbyseb ar gyfer aelodau'r Panel. Os bydd y Panel yn parhau i ddefnyddio dros 12 diwrnod y flwyddyn o waith gan ei aelodau yn dilyn yr adolygiad hwn, yna dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y deunydd recriwtio.

Efallai y byddai rhywun yn meddwl y gall y Panel ddefnyddio adnoddau'r Adran i ymdrin â rhai o'r materion capasiti a ddisgrifir. Mae'r Panel yn credu ei fod wedi arfer cael lefel uwch o gefnogaeth, ond mae'r Adran yn honni na fu lleihad. Mae'n bosibl, dros amser, fod y Panel wedi bod yn fwyfwy amharod i ddibynnu ar adnoddau'r Adran am gymorth polisi oherwydd risg canfyddedig bosibl i'w annibyniaeth.

Yn ogystal â'r materion presennol, mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion a fydd (yn y tymor byr o leiaf) yn ychwanegu baich sylweddol at lwyth gwaith y Panel. Mae argymhelliad i ailysgrifennu strwythur yr Adroddiad Blyneddol (3), gwneud rhywfaint o waith ymchwil sylfaenol (1), adeiladu modelau sydd o werth i Gynghorwyr ac y gall Cynghorwyr eu fforddio (2) a sefydlu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd (7). Mae'r rhain yn heriau ymarferol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Un dewis posibl fyddai sefydlu'r Panel fel Corff Hyd Braich Anllywodraethol llawn. Byddai hyn yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser, ac mae'n annhebygol y deuir o hyd i'r adnoddau angenrheidiol. Dewis arall, a argymhellaf, yw ymgorffori'r Panel mewn corff presennol o'r fath. Mae nifer o ymgeiswyr posibl sydd â synergeddau â Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond yn hytrach na sôn amdanynt yma, mae'n well bod yr Adran yn archwilio'r cyfleoedd heb gyfaddawdu ymlaen llaw. Byddai angen trosglwyddo'r gyllideb bresennol ynghyd â chost gyfatebol cymorth yr ysgrifenyddiaeth hefyd. Ar ôl ei gynnal mewn corff o'r fath, dylai'r Panel allu defnyddio cyngor cyfreithiol a chymorth technegol arbenigol i'w helpu i ddatrys rhai o'r heriau anoddach y mae'n eu hwynebu.

Ni fydd hyn yn ddigonol ar ei ben ei hun. Mae angen i'r Panel adolygu'r ffordd y mae'n gweithio hefyd. Byddaf yn argymhell adolygiad o effeithiolrwydd y bydd angen rhywfaint o gymorth allanol ar ei gyfer. Yn fy marn i, dylai hyn ystyried archwiliad sgiliau er mwyn llywio gwaith recriwtio yn y dyfodol, gostyngiad i'r rhaglen gyfarfodydd (cyfarfodydd ffurfiol y Panel a chyfarfodydd ymgysylltu), parhau i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir er mwyn arbed amser a chost, adolygiad o'r llwyth gwaith, ac aillbennu diben y gyllideb er mwyn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y cymorth allanol y bydd ei angen i reoli'r gofynion newydd. Dylai'r Panel fabwysiadu strwythur ffurfiol ar gyfer papurau ac agendâu, dylid cyhoeddi papurau a chofnodion yn ôl yr hyn sy'n arferol i gyrff cyhoeddus o'r fath.

Credaf yn enwedig y dylid adolygu'r rhaglen gyfarfodydd yn fanwl. Nid yw'n glir bod y cyfarfodydd presennol yn casglu tystiolaeth ar gyfer y rhaglen waith yn effeithiol, na'u bod yn ymgysylltu â phobl sy'n ddigon gwahanol i gefnogi perthnasoedd â rhanddeiliaid er eu bod yn eu hoffi (gweler ystyriaeth o'r pwyntiau hyn ym mhennod 6). Efallai y byddai'n well meddwl am gynhadledd flynyddol y gwahoddir yr holl rhanddeiliaid iddi, ble gellir trafod yr holl themâu allweddol, ac a all helpu i ddatblygu proffil cyhoeddus y Panel a'i waith. Rwyf hefyd yn cwestiynu gwerth mynd i bob Prif Gyngor ar ôl etholiadau 2022. Efallai y byddai rhaglen estynedig dros y cylch 5 mlynedd yn fwy effeithiol, gan adael y

Gwasanaethau Democraidd ym mhob Cyngor i gynnal hyfforddiant cynefino priodol ynghylch taliadau Cyngorwyr i aelodau newydd.

Byddai angen i ran o'r adolygiad o effeithiolrwydd ystyried faint o aelodau sydd eu hangen ar y Panel. Os yw'n parhau i weithio fel y mae, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid cynyddu nifer y diwrnodau fesul blwyddyn fesul aelod o'r Panel. Er hynny, dylai'r adolygiad arwain at leihad mewn llwyth gwaith trwy, er enghraifft, leihad sylweddol yn yr amser a dreulir ar gyfarfodydd ymgysylltu ac ymgynghori a ddisodlwyd gan ffyrdd amgen o gasglu tystiolaeth. Os felly, mae'n ddigon posibl y bydd y nifer presennol yn ddigonol, ond gall yr adolygiad o effeithiolrwydd gadarnhau hynny.

## **Canfyddiadau ac argymhellion**

Mae'r Panel yn gweithio gyda chymorth gweinyddol darbodus ac yn perfformio'n dda â chyllideb gweddol fach. Fodd bynnag, oherwydd ei fod yn trefnu ei waith ar hyn o bryd, mae'r Panel yn ei chael hi'n anodd cyflawni ei dasgau. Nid oes ganddo y cymorth technegol angenrheidiol i wneud ei waith yn iawn. Gwnaed hyn yn waeth gan gynllunio a recriwtio olyniaeth gwael.

Mae lle i weithio'n fwy effeithlon os gallant ddod o hyd i gymorth technegol a thrwy leihau'n sylweddol nifer y cyfarfodydd y mae'n eu rheoli a newid y ffordd y mae'n ymgysylltu ac yn casglu tystiolaeth.

## **Argymhelliad 5**

*Dylai'r Panel gael ei gynnal gan gorff hyd braich anllywodraethol a chanddo synergeddau â gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a dylai'r Adran adolygu'r ffordd orau o gyflawni hyn. Dylid trosglwyddo cyllidebau presennol gan gynnwys gwerth cymorth yr ysgrifenyddiaeth. Dylai'r Panel geisio cael cymorth cyfreithiol, polisi a thechnegol gan y corff cynhaliol newydd.*

## **Argymhelliad 6**

*Dylai'r Panel gynnal adolygiad o effeithiolrwydd â chymorth allanol. Dylai hyn ystyried archwiliad sgiliau er mwyn llywio gwaith recriwtio yn y dyfodol, gostyngiad i'r rhaglen gyfarfodydd (cyfarfodydd ffurfiol y Panel a chyfarfodydd ymgysylltu), parhau i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir er mwyn arbed amser a chost, adolygiad o'r llwyth gwaith, ac ailbennu diben y gyllideb er mwyn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y cymorth allanol y bydd ei angen i reoli'r gofynion newydd, a chynllun ar gyfer olyniaeth ar y cyd â'r Adran. Dylai'r Panel fabwysiadu strwythur ffurfiol ar gyfer papurau a ddylai, ynghyd ag agendâu a chofnodion cyfarfodydd, gael eu cyhoeddi.*

## Pennod 8 Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Roedd Cylch Gwaith yr adolygiad hwn yn cynnwys yr amcan canlynol:

“Archwilio i ba raddau y mae’n ofynnol i’r Panel ymgysylltu â’r cyhoedd ynghylch lefel cydnabyddiaeth ariannol Cyngorwyr”.

Un o ddibenion craidd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw ymdrin â buddiannau gwrthdrawiadol Cyngorwyr a Threthdalwyr o ran cydnabyddiaeth ariannol, a llunio cynllun sy’n dderbyniol i’r cyhoedd trwy fod yn deg i’r ddau ohonynt. Oherwydd na all y cyhoedd drefnu’n effeithiol, mae’n bosibl gweld y Panel ei hun fel llais a chydwybod y cyhoedd. Yn sicr, y syniad o Baneli Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw bod pobl llewyg diduedd yn ystyried y materion yn fanwl ac yn llunio cynllun sy’n diwallu anghenion democratiaeth ac sy’n dderbyniol yn llys y bobl gyffredin.

Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol o fod yn ddigon. Mae risgiau y gallai’r Panel ei hun gael ei lwyrfeddiannu gan y broses, ac mae hyn yn fwy tebygol o gael ei ystyried yn wir os yw ymgysylltiad y Panel â buddiolwyr y cynllun yn unig. Mae’r farn gyhoeddus yn mynegi ei hun trwy adroddiadau yn y cyfryngau. Gwelsom yn gynharach fod angen profi bod gan y cyhoedd hyder yn annibyniaeth y Panel (Pennod 3). A oes ffyrdd o addysgu’r cyhoedd yn ddigonol am ddiben a gwerth y cynllun fel y gall ei werthuso’n wrthrychol a llunio barn?

Mae’r Panel yn cyflwyno ei adroddiad ar gyfer ymgynghoriad, ond nid i’r cyhoedd mewn gwirionedd. Yn y parth cyhoeddus y mae ef fel y gallai cyfryngau ac eraill ymateb, er bod yr adroddiad yn gofyn am ddealltwriaeth technegol sylweddol nad yw’n rhwydd i gyfranogwyr y tu allan i’r broses ymgysylltu â hi.

Mae’r Panel yn monitro, trwy adnoddau’r Adran, sylw yn y cyfryngau i gydnabyddiaeth ariannol Cyngorwyr ond mae’n tueddu i beidio ag ymgysylltu ag ef. Mewn sylwadau i mi, roedd rhai rhanddeiliaid yn dymuno gweld y Panel yn darparu cymorth iddynt, ac roedd rhai Cyngorwyr yn teimlo nad oedd neb yn eu hamddiffyn nhw rhag ymosodiadau ar gyflogau a oedd wedi eu camarwain.

O ystyried y pwyntiau hyn, mae’n ymddangos bod pedwar dimensiwn gwahanol i ymgysylltiad y Panel â’r Cyhoedd:

- 1 Ceir y swyddogaeth o addysgu pobl am ddiben a gwerth cydnabyddiaeth ariannol Cyngorwyr.
- 2 Mae angen profi safbwynt y cyhoedd ynghylch annibyniaeth y Panel a derbynioldeb y cynllun cydnabyddiaeth ariannol.
- 3 Dylid llunio ymgynghoriad fel y gall y Cyhoedd ymgysylltu os yw’n dymuno gwneud hynny.
- 4 Dylai’r Panel amddiffyn ei benderfyniadau pan mae’n cael eu herio i bob pwrpas yn y cyfryngau.

Un o’r cyfyngiadau allweddol y mae’r Panel yn ei wynebu yw’r capasiti i wneud y gwaith hwn. Nid oes ganddo unrhyw adnodd cyfathrebu ac mae’r gefnogaeth i’w wefan yn gyfyngedig hefyd. Bydd angen rhywfaint o arloesedd a dychymyg i ddatblygu strategaeth effeithiol ar gyfer ymgysylltu â’r cyhoedd.

Credaf y bydd gweithredu argymhellion 5 a 6 yn darparu rhai adnoddau ychwanegol fel y gellir mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae'n bosibl y bydd y pethau y gall y Panel ystyried eu gwneud yn cynnwys:

- 1 Rhoi crynodebau clir o bwrpas y cynllun a'i brif nodweddion ar ei wefan.
- 2 Ymgysylltu ag Adrannau eraill i ofyn iddynt hyrwyddo'r deunydd trwy eu prosesau ymgysylltu (yn enwedig ystyried swyddogaeth Addysg).
- 3 Cynnwys cwestiynau am gydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr mewn arolygon ar gyfer y cyhoedd.
- 4 Gofyn i Gyngorau ddefnyddio'r deunydd hwn yn ei baneli ymgynghorol cyhoeddus ei hun er mwyn cael sylwadau.
- 5 Cynhadledd ffurfiol i'r wasg er mwyn lansio ymgynghoriad ar yr Adroddiad Drafft.
- 6 Digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cynhadledd flynyddol (os caiff hynny ei weithredu).
- 7 Datganiadau wedi eu paratoi y gall Gyngorau eu defnyddio wrth ymdrin â straeon yn y cyfryngau.
- 8 Parodrwydd i bobl gysylltu ag ef ac i wneud sylwadau pan ofynnir iddo gan Gyngorau.
- 9 Ymateb gweithredol (trwy alwadau ffôn neu lythyrau) i straeon yn y cyfryngau sy'n gamarweiniol.

Ni fwriedir i hyn fod yn gynllun o'r hyn i'w wneud na sut i ymgysylltu â'r cyhoedd ond yn fwy o hwb i feddwl am y peth. Ni fydd cyflog cynghorwyr byth y pwnc llosg mwyaf i'r cyhoedd ac mae angen i'r ymgysylltiad â'r cyhoedd fod yn gymesur â hynny. Serch hynny, mae pethau y gellir eu gwneud ag adnoddau cyfyngedig.

## **Argymhelliad 7**

***Dylai'r Panel lunio strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a fwriedir i addysgu'r cyhoedd yn gyfatebol, profid ei farn ar waith ac annibyniaeth y Panel, ymgynghori ag ef ar y cynllun, a bod yn barod i amddiffyn ei benderfyniadau yn ôl yr angen.***



## Pennod 9 Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion

Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn 2011. Ei ddiben yw pennu taliadau i Gynghorwyr a deiliaid swyddi cyhoeddus cysylltiedig mewn modd sy'n annibynnol ar ymyrraeth wleidyddol, trwy brosesau agored sy'n rhoi sail resymegol dryloyw ac sy'n arwain at ganlyniadau teg i dderbynwyr y taliadau ac i dalwyr y dreth gyngor sy'n eu hariannu nhw.

### **Cynlluniau ledled y DU.**

Y Cynghorau eu hunain sy'n penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr yn Lloegr, yn amodol ar dderbyn cyngor gan Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol y Cyngor ei hun. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn pennu'r cyflog trwy reoliadau statudol.

Mae'r Cyflog Sylfaenol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy nag ydyw yng Nghymru, ond mae cyflogau sylfaenol Cymru yn uwch na phob un ond llond llaw o Gynghorau yn Lloegr. Mae cyfanswm y tâl ar gyfer swyddogaethau Uwch-gynghorwyr, fel canran o'r cyfanswm a delir mewn cyflogau sylfaenol, ar ei uchaf yn Lloegr ar gyfartaledd, ond mae taliadau Cymru yn fwy na'r taliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Nid oes cynghorau cymuned yng Ngogledd Iwerddon, ac mae cynghorwyr cymuned yr Alban yn ddi-dâl. Yn Lloegr, mae rhai o'r 9,000 o Gynghorau Tref a Phlwyf yn gwneud taliadau i Gynghorwyr yn seiliedig ar gynlluniau lleol. Mae'r cyflog yn tueddu i fod yn uwch nag ydyw yng Nghymru, ond mae Cynghorau'n penderfynu a ydynt yn mynd i optio i mewn ai peidio. Nid yw dros 80% o'r holl Gynghorwyr Tref a Chymuned yng Nghymru, na thros 90% o'r rhai sydd o'r Cynghorau lleiaf yn derbyn y taliad gorfodol o £150 y mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei ddyfarnu iddynt.

### **Adolygiad o Amcanion**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi sicrhau derbynioldeb eang gan weithredu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r holl randdeiliaid yn credu mai'r Panel yw'r ffordd orau o bennu cyflog Cynghorwyr ac mae ganddo enw haeddiannol am fod yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau, ond yn agored wrth ymdrin â rhanddeiliaid allweddol.

Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r ffordd y mae'n dod i'w benderfyniadau mor dryloyw â phosibl, mae rhai rhanddeiliaid yn anfodlon ar degwch y canlyniadau. Nid yw'r panel wedi datblygu profion gwrthrychol ar fforddiadwyedd ychwaith.

Mae hefyd yn ceisio gwella amrywiaeth cefndiroedd Cynghorwyr oherwydd bod materion ariannol yn effeithio ar allu rhai pobl i sefyll etholiad, ond mater ehangach yw hwn y dylid mynd i'r afael ag ef ar draws yr asiantaethau cyhoeddus perthnasol.

### **Adolygu strategaethau a chyfathrebu**

Mae angen i'r Panel ddatblygu modelau gwerth a fforddiadwyedd Cynghorwyr er mwyn tanategu amcanion strategol hirdymor y dylid eu cyhoeddi ar wahân.

Mae angen adolygu'r broses ymgysylltu ac ymgynghori bresennol oherwydd ei bod yn defnyddio capasiti sylweddol y Panel ond yn darparu tystiolaeth y mae ei swm a'i ansawdd yn amheus i gefnogi trafodaethau'r Panel.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ddogfen gymhleth ac mae'n ceisio bodloni gofynion llawer o wahanol randdeiliaid. Byddai'n elwa ar adolygiad sylfaenol a chreu rhagor o ddogfennau addas ar gyfer anghenion gwahanol ddefnyddwyr.

### **Argymhelliad 1**

***Dylai'r Panel ddatblygu achos busnes ar gyfer rhaglen ymchwil a fydd yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arno i werthfawrogi yn fwy cadarn swyddogaeth y Cyngorwyr meinciau cefn ac Uwch-gynghorwyr, a datblygu profion fforddiadwyedd mwy gwrthrychol a thryloyw, a dylai'r Adran ystyried sut y gall gynnwys ymchwil o'r fath yn ei rhaglen ei hun.***

### **Argymhelliad 2**

***Dylai'r Panel ailystyried a mabwysiadu model ar gyfer cyfrifo gwerth tâl Cyngorwyr meinciau cefn ac Uwch-gynghorwyr y gellir ei ddilysu yn seiliedig ar dystiolaeth o'r rhaglen ymchwil; hefyd dylai fabwysiadu model fforddiadwyedd sy'n fwy tryloyw, er mwyn tanategu dull strategol tymor hwy o wneud ei benderfyniadau blynyddol.***

### **Argymhelliad 3**

***Mae'r Panel yn ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cyfleu ei benderfyniadau blynyddol fel ei fod yn llunio dogfennau sy'n diwallu anghenion gwahanol randdeiliaid yn fwy uniongyrchol, gan barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Dylai'r ddogfen ddiwygiedig gynnwys Strategaeth a gyhoeddwyd ar wahân sy'n cadarnhau amcanion tymor hwy y Panel.***

## **Adolygiad o Gwmpas**

I Gymru, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yw'r ffordd orau o bennu taliadau i Gynghorwyr. Mae cwmpas y Panel yn gywir ar y cyfan.

Mae'n briodol bod taliadau i Gynghorwyr ac Aelodau o Brif Gynghorau, Cyngorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu cynnwys yng nghwmpas cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Dylai'r cynllun talu gynnwys cyflog sylfaenol ac ar gyfer uwch-swyddogaethau yn ogystal â chwmpasu cymorth, treuliau, costau teithio a chynhaliath, cost gofal, absenoldeb teuluol ac absenoldeb oherwydd salwch.

Ni ddylid ymestyn cylch gwaith y Panel i gynnwys aelodau o gyrff eraill.

Mae'n debyg bod rhai materion y mae'r Panel yn ymdrin â nhw yn berthnasol. Dylai benderfynu ar ei bolisi ar y materion, cael cyngor manwl ac, os oes angen, gofyn i'r Adran ystyried newid y cwmpas.

Mae triniaeth treth a budd-daliadau y taliadau y tu hwnt i'r cwmpas a bydd yn parhau i fod felly. Dylai'r Panel ystyried goblygiadau treth a budd-daliadau y penderfyniadau y mae'n eu gwneud, gan sicrhau cyngor priodol i Gynghorwyr a Chynghorau.

Dylai'r Adran ystyried dileu'r gwaith o reoli cyflogau Prif Weithredwyr o'r cwmpas, ond os bydd yn aros, dylid sicrhau bod diffiniadau'n cynnwys y Prif Swyddogion Tân.

#### **Argymhelliad 4**

***Mae Cwmpas presennol y Panel bron yn gwbl gywir. Dylai'r Adran ystyried dileu'r gwaith o reoli cyflog Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig o'r cwmpas, ond os bydd yn aros, dylid newid y diffiniad er mwyn cynnwys y Prif Swyddog Tân. Dylai'r gwaith o sicrhau cydymffurfio â chyhoeddi gael ei drosglwyddo i gyrff sy'n ymwneud â chydymffurfio statudol a rheoleiddiol Cynghorau. Dylai'r Panel gymryd cyngor cyfreithiol priodol i weld a yw'r estyniadau i'r cynllun talu a ystyrir o fewn ei bwerau, a ble nad ydynt ond mae'n dymuno eu gweithredu, dylid gofyn i'r Adran ystyried newid y cwmpas.***

#### **Perthynas â rhanddeiliaid a'u barn am y Panel**

Mae'r Panel yn datblygu ac yn cynnal ei berthynas â rhanddeiliaid trwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae rhanddeiliaid yn hoffi'r ffordd hon o weithio ac maent yn teimlo y gallant godi materion â'r Panel gan fod yn hyderus y bydd y Panel yn eu hystyried yn briodol.

Mae fideogynadledda wedi bod yn ffordd effeithiol o reoli cyfarfodydd ac fe'i cefnogir gan rhanddeiliaid.

Er bod rhai rhanddeiliaid yn anhapus â'r holl benderfyniadau a wneir, mae'n llawer gwell ganddynt fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan banel annibynnol yn hytrach na thrwy ddulliau eraill. Byddent yn ceisio cael rhagor o eglurder ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau.

Mae gweithio'n bennaf drwy gyfarfodydd yn arwain at ymgysylltu cyfyngedig â phob aelod o rai rhanddeiliaid allweddol ac mae angen ategu hyn â ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.

Byddai arweinwyr polisi yng Ngwasanaeth Sifil Cymru y mae ganddynt gyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd â gwaith y Panel yn croesawu rhagor o ymgysylltu er mwyn helpu i gyfochri amcanion polisi.

#### **Adnoddau a ffyrdd o weithio**

Mae'r Panel yn gweithio gyda chymorth gweinyddol darbodus ac yn perfformio'n dda â chyllideb gweddol fach. Fodd bynnag, mae'n cael ei ymestyn i gyflawni ei dasgau, ac nid yw 12 diwrnod y flwyddyn yn ddigonol i Aelodau'r Panel gyflawni eu swyddogaeth. Nid oes ganddo y cymorth technegol angenrheidiol i wneud ei waith yn iawn. Gwnaed hyn yn waeth gan gynllunio a recriwtio olyniaeth gwael.

Mae lle i weithio'n fwy effeithlon os gallant ddod o hyd i gymorth technegol a thrwy leihau'n sylweddol nifer y cyfarfodydd y mae'n eu rheoli a newid y ffordd y mae'n ymgysylltu ac yn casglu tystiolaeth.

## Argymhelliad 5

***Dylai'r Panel gael ei gynnal gan gorff hyd braich anllywodraethol a chanddo synergeddau â gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a dylai'r Adran adolygu'r ffordd orau o gyflawni hyn. Dylid trosglwyddo cyllidebau presennol gan gynnwys gwerth cymorth yr ysgrifenyddiaeth. Dylai'r Panel geisio cael cymorth cyfreithiol, polisi a thechnegol gan y corff cynhaliol newydd.***

## Argymhelliad 6

***Dylai'r Panel gynnal adolygiad o effeithiolrwydd â chymorth allanol. Dylai hyn ystyried archwiliad sgiliau er mwyn llywio gwaith recriwtio yn y dyfodol, gostyngiad i'r rhaglen gyfarfodydd (cyfarfodydd ffurfiol y Panel a chyfarfodydd ymgysylltu), parhau i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir er mwyn arbed amser a chost, adolygiad o'r llwyth gwaith, ac aibennu diben y gyllideb er mwyn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y cymorth allanol y bydd ei angen i reoli'r gofynion newydd, a chynllun ar gyfer olyniaeth ar y cyd â'r Adran. Dylai'r Panel fabwysiadu strwythur ffurfiol ar gyfer papurau a ddylai, ynghyd ag agendâu a chofnodion cyfarfodydd, gael eu cyhoeddi.***

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Nid oes gan y Panel unrhyw ymgysylltiad sylweddol â'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Cyhoedd yn rhanddeiliad pwysig ac mae angen ymdrechu i'w hysbysu i wrando arno.

Er bod adnoddau'r Panel i gyflawni'r dasg hon yn gyfyngedig, mae pethau y gellir eu gwneud a dylai'r diwygiadau a awgrymir gan argymhellion 5 a 6 ddarparu adnoddau a chymorth ychwanegol.

## Argymhelliad 7

***Dylai'r Panel lunio strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a fwriedir i addysgu'r cyhoedd yn gyfatebol, profid ei farn ar waith ac annibyniaeth y Panel, ymgynghori ag ef ar y cynllun, a bod yn barod i amddiffyn ei benderfyniadau yn ôl yr angen.***

## Gwaith i'w Orffen

Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad, mae llawer o bwyntiau a wneir yn yr adroddiad nad eir i'r afael â nhw yn uniongyrchol yn yr argymhellion, er bod awgrym tuag atynt fel rheol. Mae hyn yn fwriadol. Nid oes diben bod yn rhy rhagnodol mewn adroddiad fel hwn oherwydd bod angen digon o hyblygrwydd i ymdrin â materion byd go-iawn wrth iddynt godi. Fodd bynnag, mae nifer o bwyntiau sy'n werth eu hailadrodd yma fel nad ânt ar goll pan fydd hi'n amser gweithredu.

Un o'r materion allweddol yn yr adroddiad fu'r cwestiwn pa werth ychwanegol y mae Cyngorwyr yn ei ddarparu i ddatblygu'r model a fydd yn pennu faint y byddant yn eu talu. Mae argymhelliad sy'n ymwneud ag ymchwil a thystiolaeth. Un agwedd, a godwyd yn aml mewn trafodaethau, yw'r cwestiwn ynghylch y graddau y mae amddifadedd cymharol mewn gwahanol ardaloedd yn creu rhagor o waith i

Gynghorwyr neu Uwch-gynghorwyr. Dylai rhan o unrhyw ymchwil brofi'r rhagdybiaeth honno os yw'n bosibl.

Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn argymhell adeiladu modelau fforddiadwyedd. Daeth yn amlwg gan wneud yr adolygiad mai un ystyriaeth bwysig i Gynghorau Tref a Chymuned oedd capasiti'r Cynghorau i weithredu'r cynllun cydnabyddiaeth ariannol ac i adrodd arno fel y mae'n effeithio arnynt. Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r Panel ei gofio yn ei drafodaethau.

Mae'r adroddiad yn trafod amrywiaeth cefndiroedd y Cynghorwyr. Cyfeirir at yr angen i Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol weithio gyda rhannau eraill o'r teulu llywodraeth leol ar ddulliau ar y cyd o fynd i'r afael â'r mater a bod yn fwy eglur ynghylch mesur yr her a'r ymateb iddi, ond nid oes argymhelliad. Efallai ei bod yn amlwg y dylid gwneud hyn, ond mae'n werth ailbwysleisio y dylai'r Panel gydweithredu cymaint â phosibl ag asiantaethau eraill pan fo amcanion ategol yn bodoli.

Mae'n werth trafod swyddogaeth y llythyr cylch gwaith blynyddol eto. Ar hyn o bryd, mae'n crynhoi rhaglen waith y Panel, a llythyr oddi wrth y Gweinidog at y Cadeirydd ydyw. Mae'r adroddiad yn awgrymu, ond nid yw'n argymhell, y gallai'r Cadeirydd anfon y llythyr at y Gweinidog (er mwyn dileu awgrymiadau ei fod yn tanseilio Annibyniaeth), a hefyd, gellir ei ddefnyddio i nodi'n glir amcanion strategol y Panel. Mae llawer o bwyslais yr adroddiad hwn ynghylch yr angen i ddatblygu a chyhoeddi nodau strategol, a gallai hyn fod yn ffordd dactegol dda o gyflawni'r nod hwnnw.

Mae llawer o awgrymiadau yn yr adroddiad ynghylch newidiadau yn y ffordd y mae'r Panel yn gwneud ei waith, heb fod yn rhy rhagnodol. Yn wir, dylai'r adolygiad o Effeithiolrwydd a argymhellir helpu i benderfynu beth sydd orau. Er hynny, ceir rhai pwyntiau allweddol y mae'n werth eu pwysleisio. Ymddengys fod llai o gyfarfodydd a pharhad cyfarfodydd rhithwir yn allweddol. Mae angen ffyrdd amgen ac atodol o gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid. Gallai hyn fod trwy arolygon neu ddulliau dieiriau eraill. Er hynny, mae achos cryf dros ryw fath o gynhadledd flynyddol y gwahoddir pawb i gymryd rhan ynddi er mwyn helpu i greu gwell ryngweithiadau â'r Panel yn ogystal â rhwng gwahanol randdeiliaid.

Mae materion i'r Adran eu hystyried trwy gydol yr adroddiad. Mae mwyafrif y rhain wedi eu cynnwys yn yr argymhellion. Un o'r pwysicaf yw sicrhau bod y cynllunio olyniaeth yn iawn, yn enwedig oherwydd y bydd Cadeirydd newydd yn cael ei benodi yn fuan. Yn y cyd-destun hwnnw, dylai'r Adran edrych ar y gofynion amser a hysbyseb ar gyfer aelodau'r Panel yn dilyn canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd.

Mae un pwynt arall i'r Adran ei ystyried. Ar hyn o bryd, os yw'r Panel yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun trwy'r prif Adroddiad neu adroddiad Atodol, mae'n rhaid iddo fynd trwy'r broses ymgynghori ffurfiol. Byddai'r Panel yn croesawu newid i'r Rheoliadau a fyddai'n caniatáu iddo wneud mân newidiadau a chywiriadau i'r cynlluniau trwy benderfyniad yn un o gyfarfodydd y Panel. Wrth gwrs, os bydd angen gwneud hyn, gallai penderfyniadau o'r fath fod yn destun gwaharddiad Gweinidogol hefyd er mwyn sicrhau nad yw pwerau wedi eu defnyddio'n ormodol

## Troednodyn

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn annibynnol ac fy rhai i o hyd yw'r argymhellion, y barnau a'r arsylwadau. Rwyf yn gobeithio y bydd yn gwasanaethu'r Adran a'r Panel yn dda gan siapio'r deng mlynedd nesaf o waith y Panel. Credaf mai ateb Cymru sydd wedi rhoi'r ystyriaeth fwyaf gweithredol i gyflogau Cyngorwyr o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU ac mae'n rhaid mai hwn yw'r dull cywir mewn Democratiaeth.

Stephen Hughes

Mehfin 2021

# Atodiad A – Cylch Gwaith ar gyfer Adolygu

**Adolygiad Deng Mlynedd o'r trefniadau ar gyfer Adolygu yn Annibynnol Banel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

## **Y Cylch Gorchwyl**

## **Y Cefndir a'r Cylch Gwaith**

Penodir unigolyn i gynnal adolygiad o Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel). Sefydlwyd y Panel yn 2008 ac nid yw wedi cael adolygiad o'r blaen.

## **Yr Amserlen**

Cynhelir yr adolygiad rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2021 ar sail uchafswm o 15 diwrnod.

## **Yr Adolygydd**

Mr Stephen Hughes yw Adolygydd

## **Y Swyddogaeth**

Gweithio i ystyried ac asesu unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol i swyddogaethau a gweithrediadau y Panel, p'un a yw'r Panel yn parhau i gynrychioli gwerth am arian ac a yw'r trefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn briodol.

## **Yr Amcanion**

Bydd yr unigolyn yn ystyried y canlynol:

- ystyried yr ystod lawn o swyddogaethau statudol a rheoleiddiol a gyflawnir gan y Panel ar hyn o bryd er mwyn cadarnhau a ydynt yn parhau i fod yn swyddogaethau cywir neu a oes angen eu newid
- ystyried a oes angen newid rhestr y cyrff a gwmpesir ar hyn o bryd gan waith y Panel
- archwilio a yw'r trefniadau cymorth gweinyddol cyfredol yn parhau i fod yn briodol neu a fyddai trefniadau eraill o fudd i waith y Panel
- archwilio a yw bwriad gwreiddiol y trefniadau newydd yn cael ei gyflawni h.y. penderfyniadau sy'n rhydd o ymyrraeth wleidyddol, tryloywder a didwylledd a thegwch.
- ystyried i ba raddau y mae strategaeth y Panel yn glir i'r rhai y tu allan i'r corff

- ystyried a yw nifer aelodau y Panel yn briodol
- archwilio i ba raddau y mae'n ofynnol i'r Panel ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch lefel cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr.
- archwilio sut mae'r Panel yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid allweddol.
- archwilio'r ffordd y mae rhanddeiliaid allweddol yn edrych ar waith y Panel.
- cynnal cymhariaeth rhwng y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol yng Nghymru a dulliau eraill ledled y DU.

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Bydd yr unigolyn yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub, Cynghorau Cymuned a Thref, Un Llais Cymru a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cynhelir ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn bennaf drwy drafodaethau dros y ffôn, a chyfarfodydd rhithwir ar sail unigol a grŵp fel y bo'n briodol

### **Llywodraethu**

Mae'r unigolyn yn atebol i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, drwy'r tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru. Bydd yr unigolyn yn cwrdd â'r tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol ac yn darparu yn rheolaidd ac yn amserol yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu â'r amcanion.

Bydd yr unigolyn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys y cynnydd o'i gymharu â'r amcanion.



## **Atodiad B Rhestr o Gyfweiliadau a Chyfarfodydd a arsylwyd**

- 13 Ebrill 2021 Leighton Jones a Sarah Warne Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- 13 Ebrill 2021 John Bader Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- 14 Ebrill 2021 Kevin Griffiths, Pennaeth Polisi Partneriaethau Llywodraeth Leol, Joan Lockett Polisi Partneriaethau Llywodraeth Leol – Cynghorau Cymuned a Rheoleiddio
- 16 Ebrill 2021 Steve Pomeroy, Pennaeth y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Simon Pickering, Pennaeth Tirwedd a Hamdden Awyr Agored, yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
- 19 Ebrill 2021 Arsylwyd cyfarfod Panel, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'i gyfarfod wedyn gydag Aelodau o Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- 22 Ebrill 2021 Cyfarfod ymgynghori gyda Dr Declan Hall
- 23 Ebrill 2021 Mark Galbraith, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- 23 Ebrill 2021 Elaina Chamberlain, Pennaeth y Gangen Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol
- 29 Ebrill 2021 Lisa James, Y Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol
- 29 Ebrill 2021 Arsylwyd cyfarfod ymgynghori Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyda Chlercod ac Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned (dau gyfarfod yn y bore a'r prynhawn).
- 7 Mai 2021 Chris Llewelyn Prif Weithredwr CLILC, Sarah Titcombe Swyddog Polisiâu a Materion Gwella (Gwasanaethau Democratiaidd) CLILC, Daniel Hurford Pennaeth Polisiâu (Gwella a Llywodraethu) CLILC
- 11 Mai 2021 Saz Willey, Is-gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- 13 Mai 2021 Claire Sharp, Joe Stockley, Ruth Glazzard, Aelodau o Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- 14 Mai 2021 Arsylwyd cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gydag Arweinwyr Prif Gynghorau
- 17 Mai 2021 Cyfarfod gweithdy gyda chynrychiolwyr Prif Gynghorau
- 21 Mai 2021 Cyfarfod gweithdy gyda chynrychiolwyr Prif Gynghorau
- 24 Mai 2021 Lyn Cadwallar Prif Weithredwr, Paul Egan Dirprwy Brif Weithredwr, Un Llais Cymru
- 26 Mai 2021 Cyfarfod gyda chynrychiolwyr Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- 18 Mehefin 2021 Trafod adroddiad drafft gydag Elaina Chamberlain
- 23 Mehefin 2021 Trafod adroddiad drafft gyda John Bader

<b>Annex C Comparison of key elements from Councillor remuneration schemes in U.K.</b>				
Criteria	Wales	England	Scotland	Northern Ireland
Regulations	Local Government (Wales) Measure 2011 Part 8 s141-160 and Schedules 2 and 3	Local Government and Housing Act 1989 S18 as amended	Local Governance (Scotland) Act 2004 (Remuneration)	Local Government Finance Act (Northern Ireland) 2011, Part 3 S31(5)
	Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 s62-67	The Local Authorities (Members' Allowances) (England) Regulations 2003	The Local Governance (Scotland) Act 2004 (Remuneration) Amendment Regulations 2021	Local Government (Payments to Councillors) Regulations (NI) 2019
	IRPW Regulations 2020			Local Government Circular 07/2021
Methodology	Annual report from IRPW makes determinations. Typically the report makes reference to indexing of pay and other elected officials, but final decision balances those considerations with wider affordability issues.	Each Council has its own method of calculating made after considering advice of its Independent Remuneration Panel	Since May 2017 pay of Councillors has been linked to pay increases of Scottish Public Sector workers	Officials at Northern Ireland Department for Communities said that the increase was in line with general inflation index
Basic Allowance for 2021/22	£14,368	Varies considerably	£18,604	£15,486
Number of SSs	Maximum number is set for each Council depending on size (set by bands)	No limits subject to advice from IRP	Maximum number set by Band by regulations	Constrained by maximum cost of SSs and no more than 50% of Councillors
Pay of Leader and Civic Head	Set by IRPW	No limits subject to advice from IRP	Set by regulations	Set by regulations
Leader pay 2021/22	£44,921 to £55,027 depending on Council's band	Varies considerably	£31,010 to £55,817 depending on Council's band	Set by Council subject to maximum SS (see Pay of other senior councillors)
Civic Head Pay 2021/22	£23,161	Varies considerably	£23,257 to £41,862 depending on Council's band	S32 of Act allows a Council to pay Civic Dignitaries such allowances as it considers reasonable and these are separate from the SS arrangements. Actual payments vary, but Belfast for example paid £34,800 in 2020/21
Pay level of other senior councillors	IRPW sets 5 bands to set pay of all roles	No limits subject to advice from IRP	No more than 75% of Leaders pay but any amount subject to the total cost not exceeding $\{[(A \times 0.75) - B] / 2 + B\} \times C$ where A is leaders salary, B is Basic salary and C is maximum number of SSs	Any level subject to the total cost not exceeding the maximum cost of SSs set by regulations and no SS can be more than 20% of that maximum amount. The Maximum amounts vary by Band between £54,525 and £117,774 meaning the most that can be paid is between £10,905 and £23,555
Other payments	IRPW makes determinations for travel and subsistence allowances, sickness and family absence for senior councillors, carers allowances. Councillors can be in pension fund.	Each council can make determinations on all schemes as for Wales, but Councillors cannot be in Pension scheme.	As per Wales	Regulations provide for carers payments and travel and subsistence. They are silent on other payments. The Circular makes clear that some of the Basic salary is for Councillors' expenses

Annex D		Data used for comparative analysis								
Council	Region	Number of councillors	Total cost (£)	Basic Salary (£)	Highest SS (£)	Average cost per councillor (£)	Net Revenue Spend £000	Cost as % of Spend	SS/BA	
Blaenau Gwent	Wales	42	706,287	13,600	29,700	16,816	176,100	0.40%	23.65%	
Bridgend	Wales	54	930,588	13,600	48,275	17,233	339,500	0.27%	26.71%	
Caerphilly	Wales	73	1,234,458	13,600	34,700	16,910	419,100	0.29%	24.34%	
Cardiff	Wales	75	1,316,400	13,571	39,700	17,552	813,800	0.16%	29.33%	
Carmarthenshire	Wales	74	1,321,772	13,600	34,675	17,862	427,800	0.31%	31.34%	
Ceredigion	Wales	42	808,483	13,600	29,674	19,250	170,100	0.48%	41.54%	
Conwy	Wales	59	1,059,000	13,600	34,700	17,949	267,600	0.40%	31.98%	
Denbighshire	Wales	47	849,055	13,600	29,500	18,065	240,200	0.35%	32.83%	
Flintshire	Wales	70	1,211,132	13,600	34,700	17,302	318,700	0.38%	27.22%	
Gwynedd	Wales	75	1,335,965	13,600	39,670	17,813	290,100	0.46%	30.98%	
Isle of Anglesey	Wales	30	583,790	13,567	29,700	19,460	157,400	0.37%	43.43%	
Merthyr Tydfil	Wales	33	620,330	13,600	29,700	18,798	148,800	0.42%	38.22%	
Monmouthshire	Wales	43	824,497	13,600	16,700	19,174	181,100	0.46%	40.99%	
Neath Port Talbot	Wales	64	1,144,769	13,600	34,400	17,887	352,400	0.46%	31.52%	
Newport	Wales	50	926,411	13,600	34,700	18,528	366,200	0.25%	36.24%	
Pembrokeshire	Wales	60	1,121,024	13,600	34,700	18,684	267,900	0.42%	37.38%	
Powys	Wales	73	1,219,925	13,575	34,700	16,711	308,200	0.40%	23.10%	
Rhondda Cynon Taf	Wales	75	1,313,174	13,571	39,700	17,509	615,100	0.21%	29.02%	
Swansea	Wales	72	1,336,068	13,600	39,670	18,557	559,400	0.24%	36.44%	
Torfaen	Wales	44	810,020	13,600	30,400	18,410	219,400	0.37%	35.36%	
Vale of Glamorgan	Wales	47	850,754	13,600	21,100	18,101	283,500	0.30%	33.10%	
Wrexham	Wales	52	968,444	13,600	34,700	18,624	294,700	0.33%	36.94%	
Aberdeen City	Scotland	45	1,009,025	16,994	22,661	22,423	410,515	0.25%	31.95%	
Aberdeenshire	Scotland	70	1,504,028	16,994	22,661	21,486	515,111	0.29%	26.43%	
Angus	Scotland	28	622,101	16,994	13,552	22,218	210,804	0.30%	30.74%	
Argyll and Bute	Scotland	36	825,973	16,994	16,992	22,944	213,788	0.39%	35.01%	
City of Edinburgh	Scotland	63	1,430,578	16,994	50,986	22,708	849,938	0.17%	33.62%	
Clackmannanshire	Scotland	18	349,290	16,994	9,670	19,405	102,291	0.34%	14.19%	
Dumfries and Galloway	Scotland	43	900,085	16,994	12,748	20,932	304,505	0.30%	23.17%	
Dundee City	Scotland	29	623,026	16,994	33,992	21,484	309,230	0.20%	26.42%	
East Ayrshire	Scotland	32	704,331	16,991	16,996	22,010	244,640	0.29%	29.54%	
East Dunbartonshire	Scotland	22	459,499	16,994	16,998	20,886	217,890	0.21%	22.90%	
East Lothian	Scotland	22	435,506	16,994	11,332	19,796	201,320	0.22%	16.49%	
East Renfrewshire	Scotland	18	363,533	16,994	11,219	20,196	203,528	0.18%	18.84%	
Falkirk	Scotland	30	604,794	16,994	16,998	20,160	304,764	0.20%	18.63%	
Fife	Scotland	75	1,467,865	16,994	12,683	19,572	721,365	0.20%	15.17%	
Glasgow City	Scotland	85	1,868,470	16,944	33,894	21,982	1,278,530	0.15%	29.73%	
Highland	Scotland	74	1,578,886	16,994	22,661	21,336	482,190	0.33%	25.55%	
Inverclyde	Scotland	22	427,772	16,947	11,302	19,444	167,824	0.25%	14.74%	
Midlothian	Scotland	18	355,195	16,994	11,332	19,733	186,195	0.19%	16.12%	
Moray	Scotland	26	522,924	16,994	9,916	20,112	181,707	0.29%	18.35%	
Na h-Eileanan Siar	Scotland	31	667,453	16,994	11,332	21,531	91,912	0.73%	26.70%	
North Ayrshire	Scotland	33	668,866	16,926	16,931	20,269	300,832	0.22%	19.75%	
North Lanarkshire	Scotland	77	1,558,609	16,994	22,546	20,242	663,863	0.23%	19.11%	
Orkney Islands	Scotland	21	454,156	16,991	10,160	21,626	71,129	0.64%	27.28%	
Perth and Kinross	Scotland	40	837,858	16,994	16,998	20,946	290,772	0.29%	23.26%	
Renfrewshire	Scotland	43	821,070	16,994	16,998	19,095	343,438	0.24%	12.36%	
Scottish Borders	Scotland	34	757,911	16,994	16,998	22,291	231,475	0.33%	31.17%	
Shetland Islands	Scotland	22	462,458	16,994	10,121	21,021	94,461	0.49%	23.70%	
South Ayrshire	Scotland	28	580,931	16,994	17,015	20,748	234,343	0.25%	22.09%	
South Lanarkshire	Scotland	64	1,307,048	16,994	22,661	20,423	599,860	0.22%	20.18%	
Stirling	Scotland	23	467,387	16,991	11,320	20,321	189,561	0.25%	19.60%	
West Dunbartonshire	Scotland	22	463,221	16,994	16,998	21,055	201,511	0.23%	23.90%	
West Lothian	Scotland	33	743,764	16,994	22,950	22,538	346,585	0.21%	32.63%	
Antrim and Newtownabbey	Northern Ireland	40	682,366	14,775	5,411	17,059	50,729	1.35%	15.46%	
Ards and North Down	Northern Ireland	40	664,050	14,775	11,840	16,601	61,644	1.08%	12.36%	
Armagh City, Banbridge and Craigavon	Northern Ireland	41	779,786	14,775	15,399	19,019	84,029	0.93%	28.73%	
Belfast	Northern Ireland	60	1,029,391	14,200	29,000	17,157	181,102	0.57%	20.82%	
Causeway Coast and Glens	Northern Ireland	40	682,828	14,473	10,050	17,071	51,803	1.32%	17.95%	
Derry City and Strabane	Northern Ireland	40	733,541	14,775	24,760	18,339	71,549	1.03%	24.12%	

Council	Region	Number of councillors	Total cost (£)	Basic Salary (£)	Highest SS (£)	Average cost per councillor (£)	Net Revenue Spend £000	Cost as % of Spend	SS/BA
Fermanagh and Omagh	Northern Ireland	40	713,806	14,775	8,222	17,845	43,395	1.64%	20.78%
Lisburn and Castlereagh	Northern Ireland	40	697,471	14,775	26,982	17,437	59,138	1.18%	18.02%
Mid and East Antrim	Northern Ireland	40	716,081	14,775	6,181	17,902	68,278	1.05%	21.16%
Mid Ulster	Northern Ireland	40	703,445	14,775	11,550	17,586	49,400	1.42%	19.03%
Newry, Mourne and Down	Northern Ireland	41	795,385	14,775	16,475	19,400	72,609	1.10%	31.30%
Barking and Dagenham	London	51	848,878	10,703	43,025	16,645	134,839	0.63%	55.51%
Barnet	London	63	1,010,000	10,896	38,693	16,032	261,703	0.39%	47.13%
Bexley	London	45	673,968	9,575	26,263	14,977	176,461	0.38%	56.42%
Brent	London	63	1,080,122	12,000	39,748	17,145	216,176	0.50%	42.87%
Bromley	London	60	956,764	10,870	30,600	15,946	185,637	0.52%	46.70%
Camden	London	54	824,010	9,849	29,293	15,259	217,055	0.38%	54.93%
Croydon	London	70	1,524,894	11,407	43,208	21,784	270,396	0.56%	90.97%
Ealing	London	69	999,428	9,708	32,100	14,484	249,868	0.40%	49.20%
Enfield	London	63	974,982	10,570	26,364	15,476	213,345	0.46%	46.41%
Greenwich	London	51	937,894	10,210	52,458	18,390	231,857	0.40%	80.12%
Hackney	London	57	1,159,191	10,679	41,482	20,337	246,210	0.47%	90.44%
Hammersmith and Fulham	London	46	763,643	8,940	32,187	16,601	178,076	0.43%	85.69%
Haringey	London	57	1,100,525	10,801	31,944	19,307	210,729	0.52%	78.76%
Harrow	London	63	842,416	8,340	31,400	13,372	150,701	0.56%	60.33%
Havering	London	54	929,598	10,208	41,719	17,215	160,149	0.58%	68.64%
Hillingdon	London	65	1,340,812	11,257	56,009	20,628	188,302	0.71%	83.24%
Hounslow	London	60	901,211	10,864	27,200	15,020	143,032	0.63%	38.25%
Islington	London	48	889,000	10,313	38,814	18,521	206,147	0.43%	79.59%
Kensington and Chelsea	London	50	1,119,742	11,027	56,429	22,395	136,887	0.82%	103.09%
Kingston upon Thames	London	48	672,489	8,086	23,931	14,010	115,350	0.58%	73.26%
Lambeth	London	63	1,107,121	10,597	37,560	17,573	240,026	0.46%	65.83%
Lewisham	London	54	809,288	9,987	62,538	14,987	247,226	0.33%	50.06%
Merton	London	60	699,573	8,694	34,776	11,660	128,014	0.55%	34.11%
Newham	London	60	1,186,870	11,058	82,620	19,781	259,384	0.46%	78.89%
Redbridge	London	63	839,963	10,138	32,000	13,333	182,248	0.46%	31.51%
Richmond upon Thames	London	54	675,587	9,450	24,791	12,511	150,405	0.45%	32.39%
Southwark	London	63	1,324,831	11,270	53,239	21,029	281,427	0.47%	86.59%
Sutton	London	54	898,002	10,945	41,391	16,630	150,660	0.60%	51.94%
Tower Hamlets	London	45	907,418	11,157	28,527	20,165	258,149	0.35%	80.74%
Waltham Forest	London	60	1,204,648	10,984	48,896	20,077	206,633	0.58%	82.78%
Wandsworth	London	60	1,054,515	10,597	40,670	17,575	171,258	0.62%	65.85%
Westminster	London	60	964,000	9,150	4,989	16,067	167,903	0.57%	75.59%
Barnsley	Yorkshire and the Humber	63	968,918	11,087	26,721	14,249	175,100	0.55%	38.72%
Birmingham	West Midlands	101	2,187,729	16,547	50,000	14,782	848,785	0.26%	30.91%
Bolton	North West	60	871,741	11,644	29,847	12,820	243,836	0.36%	24.77%
Bradford	Yorkshire and the Humber	90	1,790,622	13,463	37,056	17,906	342,466	0.52%	47.78%
Bury	North West	51	616,353	8,537	24,334	12,085	143,572	0.43%	41.56%
Calderdale	Yorkshire and the Humber	51	764,000	10,559	31,677	14,980	151,074	0.51%	41.87%
Coventry	West Midlands	54	1,037,697	13,825	24,885	18,530	241,324	0.43%	39.00%
Doncaster	Yorkshire and the Humber	55	913,902	12,610	19,546	16,033	216,390	0.42%	31.77%
Dudley	West Midlands	72	819,587	9,211	12,891	10,375	225,733	0.36%	23.58%
Gateshead	North East	66	1,078,013	10,761	32,294	14,972	172,731	0.62%	51.78%
Kirklees	Yorkshire and the Humber	69	1,192,110	13,360	24,259	15,895	274,444	0.43%	29.32%
Knowsley	North West	45	699,447	10,357	23,063	13,451	159,675	0.44%	50.08%
Leeds	Yorkshire and the Humber	99	2,191,437	15,381	38,619	17,531	517,471	0.42%	43.91%
Liverpool	North West	90	1,312,568	10,352	81,668	12,868	455,292	0.29%	40.88%
Manchester	North West	96	2,036,348	16,926	42,272	18,682	453,377	0.45%	25.32%
Newcastle upon Tyne	North East	78	891,424	8,775	17,550	8,914	236,056	0.38%	30.24%
North Tyneside	North East	60	779,038	10,115	10,512	11,627	155,126	0.50%	28.36%
Oldham	North West	60	960,138	9,519	34,268	15,740	191,526	0.50%	68.11%
Rochdale	North West	60	903,590	10,660	37,590	13,691	184,626	0.49%	41.27%
Rotherham	Yorkshire and the Humber	63	924,432	11,471	25,851	14,674	211,496	0.44%	27.92%
Salford	North West	60	1,004,269	10,827	16,229	15,216	236,732	0.42%	54.60%
Sandwell	West Midlands	72	1,253,479	10,785	25,490	15,668	259,396	0.48%	61.43%
Sefton	North West	66	842,509	9,151	22,618	11,385	231,171	0.36%	39.50%

Council	Region	Number of councillors	Total cost (£)	Basic Salary (£)	Highest SS (£)	Average cost per councillor (£)	Net Revenue Spend £000	Cost as % of Spend	SS/BA
Sheffield	Yorkshire and the Humber	84	1,292,591	12,097	18,716	14,362	370,752	0.35%	27.20%
Solihull	West Midlands	51	643,339	9,028	22,570	11,092	145,155	0.44%	39.72%
South Tyneside	North East	54	729,130	7,469	27,389	12,792	119,139	0.61%	80.78%
St. Helens	North West	48	626,663	7,935	33,500	11,824	143,095	0.44%	64.53%
Stockport	North West	63	935,350	10,226	30,728	12,991	234,894	0.40%	45.19%
Sunderland	North East	75	1,149,637	8,369	35,525	13,525	228,931	0.50%	83.16%
Tameside	North West	57	1,076,101	12,070	37,369	18,553	204,154	0.53%	56.41%
Trafford	North West	63	712,132	6,492	32,282	10,030	160,628	0.44%	74.12%
Wakefield	Yorkshire and the Humber	63	1,111,512	11,741	35,824	16,590	240,932	0.46%	50.27%
Walsall	West Midlands	60	871,659	11,146	23,124	13,207	211,963	0.41%	30.34%
Wigan	North West	75	1,227,401	12,512	44,179	14,612	261,709	0.47%	30.80%
Wirral	North West	66	790,981	8,712	22,927	10,012	281,597	0.28%	37.56%
Wolverhampton	West Midlands	60	925,070	9,344	26,360	13,215	212,646	0.44%	65.00%
Buckinghamshire	South East	49	919,367	11,626	43,156	18,763	347,253	0.26%	61.39%
cambridshire	East of England	61	958,172	10,294	31,682	15,708	358,090	0.27%	52.59%
Cumbria	North West	84	1,053,719	8,405	25,250	12,544	350,298	0.30%	49.25%
Derbysire	East Midlands	64	1,076,361	10,692	35,304	16,818	452,578	0.24%	57.30%
Devon	South West	60	1,089,453	12,369	30,572	18,158	513,624	0.21%	46.79%
East Sussex	South East	50	875,300	12,546	34,440	17,506	379,275	0.23%	39.53%
Essex	East of England	75	1,590,799	12,000	53,804	21,211	864,845	0.18%	76.76%
Gloucestershire	South West	53	832,918	10,100	27,570	15,715	366,996	0.23%	55.60%
Hampshire	South East	78	1,419,990	12,244	29,547	18,205	766,897	0.19%	48.69%
Hertfordshire	East of England	78	1,274,192	10,178	40,712	16,336	721,521	0.18%	60.50%
Kent	South East	81	1,989,911	15,086	48,425	24,567	896,919	0.22%	62.85%
Lancashire	North West	84	1,342,652	10,675	30,484	15,984	736,653	0.18%	49.73%
Leicestershire	East Midlands	55	914,122	10,905	36,954	16,620	347,270	0.26%	52.41%
Lincolnshire	East Midlands	70	1,260,110	10,530	33,361	18,002	433,036	0.29%	70.96%
Norfolk	East of England	84	1,260,000	10,924	32,981	15,000	596,648	0.21%	37.31%
North Yorkshire	Yorkshire and the Humber	72	1,020,473	9,635	31,426	14,173	370,055	0.28%	47.10%
Northamptonshire	East Midlands	57	737,663	8,312	25,754	12,941	423,337	0.17%	55.70%
Nottinghamshire	East Midlands	66	1,602,562	14,325	33,594	24,281	489,618	0.33%	69.50%
Oxfordshire	South East	63	951,841	10,509	30,476	15,109	444,476	0.21%	43.77%
Somerset	South West	55	890,520	11,011	33,033	16,191	301,964	0.29%	47.05%
Staffordshire	West Midlands	62	1,002,233	9,406	36,489	16,165	437,251	0.23%	71.85%
Suffolk	East of England	75	1,170,687	10,479	29,847	15,609	452,762	0.26%	48.95%
Surrey	South East	81	1,711,778	12,443	32,166	21,133	793,108	0.22%	69.84%
Warwickshire	West Midlands	57	790,359	9,426	23,608	13,866	340,934	0.23%	47.11%
West Sussex	South East	70	1,234,823	11,642	32,297	17,640	538,451	0.23%	51.52%
Worcestershire	West Midlands	57	911,215	8,947	34,866	15,986	332,673	0.27%	78.68%
Bath and North East Somerse	South West	59	825,521	7,636	31,809	13,992	114,911	0.72%	83.24%
Bedford	East of England	40	653,000	10,425	12,511	16,325	134,163	0.49%	56.59%
Blackburn with Darwen	North West	51	564,000	7,000	20,000	11,059	116,464	0.48%	57.98%
Blackpool	North West	42	800,000	9,364	28,094	19,048	122,506	0.65%	103.40%
Bournemouth, Christchurch &	South West	76	759,117	9,291	28,178	9,988	213,462	0.36%	7.51%
Bracknell Forest	South East	42	577,487	8,687	28,954	13,750	83,528	0.69%	58.28%
Brighton and Hove	South East	54	858,580	12,117	29,475	15,900	207,095	0.41%	31.21%
Bristol, City of	South West	70	1,220,858	12,261	21,550	17,441	347,068	0.35%	42.25%
Central Bedfordshire	East of England	59	1,056,406	10,996	31,337	17,905	201,625	0.52%	62.84%
Cheshire East	North West	82	1,269,655	12,109	27,815	15,484	263,401	0.48%	27.87%
Cheshire West and Chester	North West	75	1,138,538	11,923	29,220	15,181	231,295	0.49%	27.32%
Cornwall	South West	123	2,187,090	14,189	26,249	17,781	502,488	0.44%	25.32%
County Durham	North East	126	2,020,520	13,300	36,575	16,036	399,485	0.51%	20.57%
Darlington	North East	50	603,339	8,188	20,171	12,067	76,553	0.79%	47.37%
Derby	East Midlands	51	801,000	10,076	26,664	15,706	184,361	0.43%	55.87%
East Riding of Yorkshire	Yorkshire and the Humber	67	1,164,127	11,502	37,128	17,375	244,366	0.48%	51.06%
Halton	North West	56	799,360	8,597	22,169	14,274	113,006	0.71%	66.04%
Hartlepool	North East	32	325,565	7,948	23,844	10,174	81,926	0.40%	28.01%
Herefordshire, County of	West Midlands	53	643,809	7,571	32,616	12,147	134,301	0.48%	60.44%
Isle of Wight	South East	40	473,766	7,854	15,564	11,844	130,330	0.36%	50.80%
Isles of Scilly	South West	16	109,000	6,165	12,330	6,813	5,469	1.99%	10.50%

Council	Region	Number of councillors	Total cost (£)	Basic Salary (£)	Highest SS (£)	Average cost per councillor (£)	Net Revenue Spend £000	Cost as % of Spend	SS/BA
Kingston upon Hull, City of	Yorkshire and the Humber	57	1,076,753	13,118	25,744	18,890	194,417	0.55%	44.00%
Leicester	East Midlands	54	1,038,738	10,556	60,047	19,236	222,551	0.47%	82.23%
Luton	East of England	48	441,680	7,500	15,000	9,202	130,207	0.34%	22.69%
Medway	South East	55	758,090	8,987	26,396	13,783	183,039	0.41%	53.37%
Middlesbrough	North East	46	566,978	6,363	63,625	12,326	123,208	0.46%	93.72%
Milton Keynes	South East	57	814,177	10,500	30,600	14,284	169,680	0.48%	36.04%
North East Lincolnshire	East Midlands	42	496,274	7,999	21,290	11,816	121,376	0.41%	47.72%
North Lincolnshire	East Midlands	43	565,906	6,874	16,799	13,161	119,120	0.48%	91.45%
North Somerset	South West	50	647,000	8,373	26,421	12,940	151,290	0.43%	54.54%
Northumberland	North East	67	1,373,219	14,004	27,000	20,496	267,146	0.51%	46.36%
Nottingham	East Midlands	55	1,059,008	12,240	34,744	19,255	240,887	0.44%	57.31%
Peterborough	East of England	60	843,834	10,302	30,906	14,064	142,776	0.59%	36.52%
Plymouth	South West	57	975,590	10,788	29,579	17,116	186,725	0.52%	58.65%
Portsmouth	South East	42	605,035	10,955	18,129	14,406	133,239	0.45%	31.50%
Reading	South East	46	447,571	8,220	10,200	9,730	115,087	0.39%	18.37%
Redcar and Cleveland	North East	59	716,160	9,550	14,789	12,138	113,258	0.63%	27.10%
Rutland	East Midlands	26	177,018	3,770	11,420	6,808	31,128	0.57%	80.59%
Shropshire	West Midlands	74	1,194,221	11,514	23,028	16,138	215,104	0.56%	40.16%
Slough	South East	42	468,733	7,626	19,827	11,160	91,162	0.51%	46.35%
South Gloucestershire	South West	70	1,026,437	11,637	24,531	14,663	190,851	0.54%	26.01%
Southampton	South East	48	721,931	12,215	21,464	15,040	176,057	0.41%	23.13%
Southend-on-Sea	East of England	51	657,420	9,024	31,583	12,891	118,196	0.56%	42.84%
Stockton-on-Tees	North East	56	713,100	9,300	24,999	12,734	149,756	0.48%	36.92%
Stoke-on-Trent	West Midlands	44	754,824	12,000	32,968	17,155	209,846	0.36%	42.96%
Swindon	South West	57	548,199	8,363	24,808	9,618	156,729	0.35%	15.00%
Telford and Wrekin	West Midlands	54	617,284	7,870	21,391	11,431	116,574	0.53%	45.25%
Thurrock	East of England	49	644,144	9,021	21,699	13,146	113,371	0.57%	45.72%
Torbay	South West	36	37,764	687	2,333	1,049	107,929	0.03%	52.60%
Warrington	North West	58	727,497	8,174	16,451	12,543	132,213	0.55%	53.45%
West Berkshire	South East	52	549,236	7,533	18,830	10,562	116,077	0.47%	40.22%
Wiltshire	South West	98	1,964,161	13,199	51,056	20,042	349,265	0.56%	51.85%
Windsor and Maidenhead	South East	57	737,878	8,143	24,428	12,945	89,898	0.82%	58.97%
Wokingham	South East	54	575,000	7,784	18,199	10,648	107,388	0.54%	36.80%
York	Yorkshire and the Humber	47	642,000	9,198	26,001	13,660	138,872	0.46%	48.51%

## Ffynonellau Data

Cymerwyd nifer y Cynghorwyr o dudalen Wikipedia “Political make-up of Councils in the United Kingdom”

Cymerwyd Cyfanswm cost y cynllun, y Cyflog Sylfaenol, yr Uwch Gyflog Uchaf o adroddiad Taxpayer’s Alliance “Councillors’ allowances” gan Kieran Neild-Ali Rhagfyr 2020. Mae’r data hyn wedi eu gwirio a’u haddasu gan yr Adolygydd fel y disgrifir yn yr adroddiad

Cymerwyd gwariant awdurdodau lleol Cymru o wefan ystadegau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwefan Awdurdodau Lleol

Cymerwyd cyfanswm y gwariant yn Lloegr o ddata Revenue Outturn (RO) 2018-19: Revenue Outturn Summary (RS)

Cymerwyd cyfanswm gwariant yr Alban o Provisional Outturn for 2018-19 and 2019-20 by Service, £ millions ar wefan Llywodraeth yr Alban

Echdynwyd data gwariant Gogledd Iwerddon gan yr Adolygydd o Gyfrifon Blynnyddol y Cynghorau